# Y DINESYDD

Hydref 2021 Papur Pobl Caerdydd a'r Fro Rhif 462 £1.20




**Teyrnged i Magi Dodd** tud. 22



*Llun: BBC Cymru*

**Jason Mohammad, Valmai Griffiths a therfysg Trelai** tud. 13



**Dadorchuddio cofeb Betty Campbell** tud. 2

# Y DINESYDD

**Golygydd:**
**Manon Phillips**

***Golygydd Tachwedd***
***Alun Treharne***

Cyfraniadau erbyn 27 Hydref i:
aluntreharne@btinternet.com
91 Windermere Avenue, Parc y Rhath,
Caerdydd, CF23 5PS
029 20754436 / 07800 908898

Y Digwyddiadur:
Yr Athro E Wyn James
JamesEW@caerdydd.ac.uk
16 Kelston Road, Caerdydd, CF14 2AJ
029 20628754

Hysbysebion:
Iestyn Davies
iestynd@gmail.com
15 Birchfield Crescent, Parc Victoria,
Caerdydd, CF5 1AE
07876 068498

Tanysgrifiadau i:
Ceri Morgan
ceri33@btopenworld.com
24 Cwm Gwynlais, Tongwynlais,
Caerdydd, CF15 7HU
029 20813812 / 07774 816209

Prif Ddosbarthwr:
Arthur Evans
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd.
aloevans@icloud.com
029 20623628

**www.dinesydd.cymru**
Cyhoeddir gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi
ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyr:
Serol Print: Castell-nedd
Cysodydd: Dr Eirian Dafydd

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol
gan
Lywodraeth Cymru

Y Cyfryngau Cymdeithasol
Twitter: @DinesyddCdydd
Facebook:
www.facebook.com/YDinesydd

## Gair gan Olygydd y Mis

*Dadorchuddiwyd cofeb i Betty Campbell yn y Sgwar Canolog ddiwedd Medi sef y brifathrawes ddu gyntaf yng Nghymru ac ymgyrchwraig gwrth-hiliaeth o Dre-biwt. Dyma'r gofeb gyntaf o fenyw yng Nghymru ac yn ddi-os cafodd ddylanwad ar genedlaethau o blant ardal Tre-biwt a thu hwnt. Ac mae rhaid canmol Cyngor Caerdydd am y gofeb arbennig a thrawiadol hon.*

*Ac roedd athrawon dylanwadol yn amlwg ar raglen DRYCH: Trelái, Y Terfysg a Fi. wrth i Jason Mohammad sôn am ddylanwad ei athrawes Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw, Valmai Griffiths, arno (llun clawr). Roedd Valmai, sydd wedi cyfrannu dros y blynyddoedd i'r Dinesydd, hefyd i'w chlywed ar raglen radio Jason Mohammad ar Radio Wales gyda Jason yn sôn amdani fel yr athrawes a newidiodd drywydd ei fywyd. Canmoliaeth yn wir!*

*Gallwch nawr brynu copi o'r Dinesydd o Gafé Bloc ym Mharc Fictoria ac mae eitem Iestyn Davies ar Barc Fictoria a'i siopau bwyd ar dudalen 8.*

*Mae croeso ichi anfon erthyglau a lluniau ar gyfer y rhifyn nesaf. Os allwch chi eu hafnon at olygydd mis Tachwedd, Alun Treharne, erbyn 27 o Hydref.*

*Pob hwyl*
*Manon*

## Siopau lle gwerthir *Y Dinesydd*

**CABAN**, Pontcanna
**CAFFI BLOC**, Parc Fictoria
**CANT A MIL**, 100 Whitchurch Rd.
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**DINAS COMPUTERS**, Heol y Crwys
**GRIFFIN BOOKS**, Penarth
**NISA**, Heol Caerdydd, Dinas Powys
**PAPERWEIGHT**, 22 Wellfield Road
**SIOP FACH CAERDYDD**, Arcêd y Castell
**Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**VICTORIA FEARN GALLERY,** Rhiwbeina

# Colofn G.R.



## *“daw’r Hydref ac atgofion am Aberfan”*

Adeg yma o’r flwyddyn byddaf yn teimlo’n ddiflas wrth feddwl am y cannoedd o Gymry ifanc galluog sy wedi dewis mynd i astudio yng ngholegau Lloegr tra bod cannoedd o Saeson ifanc galluog wedi gweld gwerth mewn dod i astudio yng Nghymru. Yn anffodus bydd llawer o’r Cymry ifanc sy’n astudio yn Lloegr ddim yn dychwelyd a byddan nhw’n byw a gweithio yn Lloegr gan amddifadu Cymru o’u doniau a’u presenoldeb yn ein plith.

Y mis diwethaf bu’r Unol Daleithiau a gweddill y byd yn cofio ugain mlynedd ers yr ymosodiadau cïaidd ar ddau dwr Canolfan Fasnach y Byd yn Efrog Newydd a laddodd bron i 3,000 o bobl. Ers y digwyddiad erchyll hwn, mae cannoedd os nad miloedd o bobl Efrog Newydd naill ai wedi marw neu wedi dioddef o afiechyd anadlu ar ôl iddyn nhw gael eu gwenwyno gan y llwch gwenwynig a lenwodd yr awyr wedi cwymp y Tyrau.

Mae’r digwyddiad yn dal yn fyw yn fy nghof a chofiaf fy mod i gartre yn gwylio’r teledu ar y pryd ac on i’n aros i wrando ar araith Tony Blair yng Nghynhadledd y Blaid Lafur ond yn sydyn aeth y teledu’n fyw i Efrog Newydd a dangoswyd yr ail awyren yn taro’r ail dwr. Odd hi’n olygfa anhygoel a syfrdanwyd pawb gan y weithred ysgeler hon sy wedi newid y byd mewn gwirionedd ar ôl hyn.

Y mis hwn, byddwn ni yng Nghymru yn cofio Trychineb Aberfan pan laddwyd 116 o blant yn yr ysgol leol a 28 o oedolion ar yr 21 o Hydref 1966. Eto cofiaf ble on i pan glywais i am y drychineb hon. On i’n athro ifanc ar y pryd yn Ysgol Treláí yng Nghaerdydd ac ar y Dydd Gwener hwnnw odd y tywydd yn wlyb a diflas yma. Yna, yn ystod yr awr ginio dyma’r prifathro yn dod i’r stafell athrawon i sôn wrthym fod na rywbeth mawr wedi digwydd yn Aberfan yn ystod y bore. Dychwelais i adre ar ôl ysgol a dechrau gwylio’r teledu a gweld lluniau o gannoedd o ddynion yn cloddio yn y gwastraff glo odd wedi llithro lawr ochr y mynydd a gorchuddio’r ysgol a’r tai cyfagos. Odd hi’n olygfa ddirdynnol yn arbennig wrth sylweddoli bod cymaint o blant a phobl dan y gwastraff.

Un arall a gollwyd yn ystod yr haf odd yr annwyl, hoffus a direidus Charli Britton odd yn ddrymiwr i’r band pop “Edward H” a bandiau eraill ac yntau ond yn 68 oed. Dylunydd llwyddiannus odd o wrth ei waith bob dydd ac yn byw ym mhentre Carmel ger tre Caernarfon, ond cafodd ei fagu yng Nghaerdydd a bu’n ddisgybl yn Ysgol Rhydfelen. Odd ei deulu yn aelodau yn yr hen gapel Cymraeg odd yn perthyn i enwad yr Annibynwyr yn Heol Hafren Treganna lle bu’r Parchg Gwyn Erfyl yn weinidog.

Y tymor hwn sefydlwyd Uned Gymraeg ar safle yng Nghaerlleon a fydd yn datblygu yn bedwaredd Ysgol Gynradd Gymraeg yng Nghasnewydd. Gelwir yr ysgol yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ac fel bydd yr Uned yn tyfu bydd yr ysgol yn symud i safle newydd yng Nghasnewydd.

Agorwyd yr ysgol Gymraeg gyntaf yng Nhgasnewydd yn 1971 gydag wyth o ddisgyblion ac un o’r ymgyrchwyr i sicrhau addysg Gymraeg yn y ddinas odd Paul Flynn, Aelod Seneddol, Gorllewin Casnewydd ac yn frodor o Grangetown lle astudiodd y Gymraeg fel un o’i bynciau Safon A yng Ngholeg Illtud Sant yn y Sblot. Adroddir yr holl hanes am sefydlu’r ysgol yn ei hunangofiant “Baglu ’mlaen”. Pob llwyddiant i’r ysgol newydd a llongyfarchiadau i ddinas Casnewydd am eu cefnogaeth i’r Gymraeg.

Eleni buon ni’n cofio am farwolaeth y bardd Waldo Williams, hanner can mlynedd yn ôl ac yn ddiweddar mae teulu’r bardd wedi cynnig ysgoloriaeth gwerth £500 i ddau fyfyriwr yn eu blwyddyn gyntaf sy’n astudio’r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Gyda llaw, os oes £175,000 yn sbâr gennych chi, beth am gynnig i brynu cwt traeth yn Abersoch ym Mhenrhyn Llŷn sy wedi bod ar werth yn ddiweddar a byddai angen ffortiwn arall arnoch i brynu tŷ yn y pentre hwn!


Rhyfedd o fyd ac yn sefyllfa amhosibl i’r boblogaeth gynhenid ar gyflogau isel i gystadlu â’r prisiau hyn.

Yn olaf y mis hwn, mae’r defnydd o *“so”* yn dal i’m gwylltio ond bu bron i mi chwythu ffiws pan glywais i rywun ar S4C yn sôn am ‘ddau ferch’ heb sôn am ‘blwyddyn neu ddau, tri set, dau bunt a dau gêm’! Ond taw biau hi siwr o fod am y tro! Felly, cadwch y ffydd a byddwch lawen er gwaethaf popeth!



# Merched y Wawr Y Felin

**Noson gynta'r tymor yng nghwmni Delwyn Siôn**



Anghofion ni am Zoom am y tro a dod at ein gilydd - bron wyneb yn wyneb, (h.y. gan wisgo mygydau) yn ein cartref arferol yn festri Capel y Methodistiaid yn yr Eglwys Newydd. Dyna chi braf!

A phwy gwell na'r annwyl Delwyn Siôn i'n difyrru ar noson gyntaf y tymor newydd hwn. Mae Delwyn yn un ohonom ni ....wel na, dyw e ddim yn aelod o Ferched y Wawr ond mae e'n byw yn yr Eglwys Newydd!

Cychwynodd Delwyn ei yrfa fel canwr pan oedd yn fachgen ysgol. Byth ers hynny bu'n cyfansoddi, canu a recordio llu o ganeuon adnabyddus i ni gyd. Pleser bob amser yw cael eu clywed.

Roedd cleber a chân Delwyn yn hudol fel arfer ac fe gawson ni straeon difyr am gefndir ei deulu yn Aberdâr. Roedd ganddo luniau diddorol i'w dangos. Lluniau aelodau penodol o'r teulu ac un ohono fe ei hunan yn blentyn bychan iawn gyda'i frawd - yn gwisgo ffrog bryd hynny, medde fe! Roedd tylwyth ei dad yn hanu o Landudoch yn Sir Benfro a thylwyth ei fam yn wreiddiol o Gastell Nedd. Ei famgu a'i dadcu sydd yn y gân hyfryd honno ry'n ni i gyd yn dwlu arni, "Un Seren".

Bachan o Aberdâr oedd ei dad, yn gweithio yn y pwll glo ac yna ymaelodi â'r RAF amser rhyfel a threulio amser yn y Dwyrain Canol. Mae Delwyn wrth ei fodd yn edrych nôl ar fywyd y teulu:

"Ond oedden nhw'n ddyddie da"

Adroddodd hanes doniol y ddau Wil: y cyntaf yn ddyn mawr parchus yn y capel ac yn biler yn y gymdeithas a'r llall yn dod i'r tŷ bob nos yn smoco a rhegi a mynd i'r Band o Hope a wedyn i'r dafarn! Ond roedd y ddau yr un mor hoffus er eu gwahaniaethau. Teulu glofaol hollol draddodiadol oedd hwn yn debyg i'r rhai sydd yn storïau Alexander Cordell.

Mae Max Boyce yn gefnder cyntaf iddo ac mae Delwyn yn teimlo'n hynod falch ei fod wedi darganfod ei hen gitâr yn y cwtsh dan stâr! Byddai'r ddau yn gwrando a thrafod caneuon ei gilydd yn aml. Delwyn oedd y cyntaf erioed i glywed 'Hymns and Arias' gan i Max ofyn ei farn amdani.

Bydd CD newydd Delwyn yn ymddangos yn y siopau cyn y Nadolig. Ar honno mae e'n dilyn trywydd ei deulu trwy'r caneuon. Soniodd yn arbennig am Hwiangerdd Elisabeth. Yn hon, mae Delwyn yn dychmygu Bet y fam yn siarad a'i phlentyn, Max, wedi iddi golli ei gŵr mewn damwain yn y pwll glo:.

*" Chei di ddim cario ei faich i'r ddaear,*
*ond cei gario ei enw a'i alawon ymlaen*
*a chei wneud i mi chwerthin eto"*

Edrychwch amdani.

Roedd hon yn noson hyfryd iawn. Hedfanodd yr amser.

*Mair Robins*

Mae rhaglen amrywiol dda wedi ei pharatoi ar gyfer y tymor. Os nad ydych yn aelod cofiwch bod croeso i chithe hefyd. £5 yw pris mynediad a £4 os ydych yn aelod mewn cangen arall.
Mwy o fanylion gan Eiry: 07855 666242
eiry.davies@hotmail.co.uk

# Ysgol Bro Morgannwg

Pleser yw cyflwyno Prif Ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

Penodwyd Catrin Barker a Iolo Davies fel Prif Ddisgyblion yr ysgol. Cafodd Efa Rowlands a Gruffudd Siôn eu penodi yn Ddirprwy Brif Ddisgyblion.

Wedi iddi gael ei phenodi, dywedodd Catrin Barker, 'Teimlaf fraint o gael fy ymddiried i gyflawni'r rôl bwysig hon. Gobeithiaf yn arw y gallaf wneud gwahaniaeth i fywyd ysgol pob disgybl yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Mae bod yn rhan o'r Chweched Dosbarth yma yn brofiad arbennig ac edrychaf ymlaen i arwain trwy esiampl!'

Dywedodd Mr Rhys Angell-Jones, Pennaeth yr Ysgol, 'Rydym yn hynod o falch o'n pobl ifanc sydd wedi ymroi yn llwyr i gynrychioli gwerthoedd yr ysgol. Byddant yn chwarae rhan enfawr fel arweinwyr, gan gyfrannu at gymuned yr ysgol ac yn ehangach, gan ysbrydoli y tô iau i lwyddo fel y gwnaethant hwy! Llongyfarchiadau.'

Dymunwn yn dda iddynt. Maent eisoes wedi dewis elusen ar gyfer gweithgarwch y Chweched Dosbarth eleni sef Canolfan Ganser Velindre.



# Colofn Natur

## *Caerdydd y Permaidd*



**Gethin Jenkins-Jones**

Yn dilyn ein hymweliad yn ôl i drofannau'r Carbonifferaidd fis diwethaf, efallai byddwch yn synnu clywed bod yna fyrdd anhygoel o ecosystemau eraill eto i'w gweld ar ein taith trwy hanes pell Caerdydd. Nesaf ar ein siwrne yw'r Permaidd - a pharhaodd o 298 i 251 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Ac os yw'r Carbonifferaidd yn gyfnod y dylem ei werthfawrogi am ei bwysigrwydd at hanes ein gwlad (trwy'r glo a grëwyd), dylai'r Permaidd fod yn gyfnod i ni ddysgu ohono wrth feddwl am ein dyfodol.



Pan ddaeth yr Oes Carbonifferaidd i ben trodd rhannau helaeth o'r byd yn sychach, a chollwyd rhan fwyaf o'r coedwigoedd glaw a oedd yn nodweddiadol o'r cyfnod. Y prif reswm am hyn oedd bod platiau tectonig mawrion y byd wedi dod ynghŷd yn raddol fach i greu un cyfandir enfawr a alwyd yn Pangea. Heb wyntoedd llaith o foroedd cyfagos i greu cymylau glaw, lledaenodd cynefinoedd sych mewn sawl rhanbarth. Roedd hyn yn sicr yn wir am Gaerdydd, a oedd hefyd ar y pryd ar ledred tebyg i anialwch y Sahara heddiw. Mae'n rhyfedd meddwl am Gaerdydd - dinas wlypaf Prydain erbyn hyn - â'r un hinsawdd unwaith â gwledydd Affrica. Ond am gyfnodau hir o'i hanes dyna sut bu ein dinas!

Wrth lanio ein peiriant amser ar leoliad Caerdydd 265 miliwn blwyddyn yn ôl, y peth cyntaf sy'n ein taro yw'r gwres. Mae'r haul yn tywynnu'n gryf ar hyd awyr ddigwmwl, ac mae gwynt cynnes yn chwythu'n ysgafn. Wrth edrych o'n hamgylch, nid yw'r dirwedd yn hollol debyg i fannau diffaith y Sahara, ond nid oes llawer o lystyfiant i'w gweld chwaith. Mae cysgod hyfryd o glwstwr cyfagos o goed yn ein gwahodd ato. Wrth edrych ar y dail maent yn edrych yn gyfarwydd. Yn ystod y Permaidd gwelwyd rhagflaenwyr cynnar y coed pinwydd am y tro cyntaf. Am eiliad mae'n ymddangos yn anhebygol y byddant yn medru ffynnu yn y fath sychder, ond wrth eu cyrraedd rydym yn gweld eu bod yn tyfu yn agos at bwll dŵr. Gyda dim pyllau arall o'n hamgylch, mae amrywiaeth o fywyd gwyllt wedi'u denu yma. Mae'r trychfilod yn enwedig yn edrych yn hynod ddiddorol, ac mae un anferth - Palaeodictyoptera - yn hedfan o'n hamgylch ar dri phâr o adenydd! Mae'r lefelau uwch o ocsigen yn galluogi'r pry i dyfu i faint anferth am y tro. Ger y llan gwelwn anifail maint cath o deulu'r captorhinomorph yn ein gwylio'n ddistaw. Hwn yw un o'r ymlusgiaid cynharaf. Nawr bod yr hinsawdd yn sych a phoeth, mae'r anifail hwn, ac eraill o'i fath, yn gorfod dodwy wyau wedi'u hamgau mewn plisgyn amddiffynnol, caled, - rhywbeth mae ymlusgiaid yn parhau i'w wneud hyd heddiw.



Mae'n braf gweld bod bywyd wedi esblygu ac yn ffynnu yn yr amodau newydd. Ond yr hyn mae'r Oes Permaidd yn fwyaf enwog amdano yw'r dirywiad trychinebus ym mioamrywiaeth a ddaeth ar ddiwedd y cyfnod. O fewn ychydig milenia, tua 251 miliwn o flynyddoedd yn ôl, collwyd 70% o rywogaethau'r tir a 95% o rywogaethau'r môr. Mae cytuno heddiw taw allyrron o feintiau anferthol o nwyon tŷ gwydr o losgfynyddoedd yn Rwsia sydd ar fai. Wrth i'r tymereddau godi, wnaeth y ceryntau cefnforol lonyddu, gan leihau lefelau ocsigen yn y môr i lefelau peryglus. Cynyddodd y nifer o organebau anocsig microsgopig fel Methanosarcina a oedd yn rhyddhau y nwy methan - nwy tŷ gwydr cryfach na charbon deuocsid - a daeth cynnydd arall yn y tymheredd. Gyda'r amodau yn newid mor gyflym, collwyd miloedd o anifeiliaid o'n planed. Fe gymerodd amser hir i fywyd i adfer wedi hynny - 10 miliwn o flynyddoedd i godi i'r lefelau a fodolai cyn y golled, ac arweiniodd at gychwyn oes grŵp o ymlusgiad a oedd i ddod yn adnabyddus iawn i ni. Y deinosoriaid!

Mae difodiant yn rhan o natur, a bydd rhagor o ddigwyddiadau tebyg yn digwydd ar hyd ein taith. Ond ni ddylwn adael iddyn nhw ddigwydd os gallwn ni wneud rhywbeth i'w hatal. Mae cynefinoedd Cymru a gweddill y byd yn parhau i gynnal creaduriaid rhyfeddol ac anhygoel, ond mae nifer dan beryg o gael eu colli am byth. Trwy wybod am y rhai rydym wedi colli eisoes, ac am y lwc anhygoel sy'n golygu bod bywyd cymhleth wedi gallu bodoli ar ein planed, does bosib y dyliem ni wneud rhywbeth i'w gwarchod?

***Lluniau: Laura Giles***




## NID YW CYMRU AR WERTH!

*Mynd â'r alwad*
*at risiau'r Senedd yng Nghaerdydd*

Mae pobl ifainc yn ei chael yn amhosibl bellach i brynu cartrefi yn eu cymunedau eu hunain mewn llawer o ardaloedd yn y gogledd a'r gorllewin, a chymunedau naturiol Gymraeg yn cael eu tanseilio. Ers Brexit mae sylw llawer o bobl sy'n ceisio ail gartref neu dŷ gwyliau wedi troi o Ffrainc a Sbaen i Gymru. Ar ben hyn daeth awydd mawr yn sgîl y pandemig i ffoi o ddinasoedd Lloegr i ardaloedd gwledig a ystyriwyd yn fwy diogel. Mae cwmnïau cyllid bellach yn hyrwyddo'r broses arlein i bobl o du allan brynu tai yng Nghymru fel ail gartrefi ac fel buddsoddiadau i'w gosod dan AirBnB.

Ym mis Gorffennaf, daeth dros fil o bobl ynghyd yn enw Cymdeithas yr iaith ar Argae Tryweryn i ffurfio argae dynol yn arwydd o benderfyniad i atal y chwalfa. Mae'r alwad ar Lywodraeth Cymru i reoli'r farchnad dai yn awr yn dod at risiau'r Senedd ei hun mewn rali fawr Sadwrn 13eg o Dachwedd. Bydd yr adloniant yn dechrau am 1.30pm a siaradwyr yn y rali o 3pm ymlaen.

Yn annerch y rali, bydd Y Cyng. Rhys Tudur o Nefyn lle mae Cyngor y Dref wedi rhoi pwysau ar y Prif Weinidog i weithredu. Bydd Meri Huws hefyd yn annerch y rali. Mae Meri'n gyn-Gomisiynydd Iaith ac yn aelod o Fwrdd yr elusen Shelter, ond pwysleisia ei bod yn dod i siarad allan fel unigolyn yn yr ymgyrch bwysig hon. Hefyd yn siarad bydd Mabli Siriol, cadeirydd Cymdeithas yr Iaith a fagwyd yn Ne Caerdydd, a bydd eraill o'r gymuned leol yn ymuno gyda hi.

Mae nifer o resymau da pam fod y rali hon o bwys mawr i bobl Caerdydd. Yn gyntaf, mae llawer o Gymry Cymraeg Caerdydd â'u gwreiddiau yng nghymunedau Cymraeg y gogledd a'r gorllewin, a dyma gyfle i weithredu drostyn nhw. Yn ail, mae ardal y Senedd ei hun – TRE-BIWT – wedi wynebu'r un broblem, wrth fod y gymuned unigryw leol yn cael ei chwalu a buddiannau corfforaethol a thwristaidd yn symud i mewn. Ymgyrch Cymru gyfan yw hon.

Yn olaf, prif-ddinas Cymru yw Caerdydd ac yma y lleolir ein Senedd Genedlaethol. Dyma gyfle i'n Llywodraeth osod esiampl i'r byd mewn cyfiawnder cymdeithasol gan basio Deddf Eiddo a fydd yn cyfri tai fel adnoddau cymdeithasol i roi cartrefi i bobl, yn hytrach nag fel asedau masnachol i ymelwa oddi arynt. Welwn ni chi Sadwrn 13eg o Dachwedd – Nid yw Cymru ar Werth!

*Carol Jenkins*
*Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas yr Iaith*

## NEWYDDION YCHWANEGOL Y DINESYDD

Weithiau mae gormod o ddeunydd yn dod i law i'w gynnwys mewn rhifyn cyfredol. O ganlyniad mae'n rhaid cynnwys rhai ar ein gwefan www.dinesydd.cymru. Y mis hwn ychwanegwyd adroddiad am un o deithiau cerdded Cymdeithas Edward Llwyd yn Gelli Nudd, Pontardawe.

# NEGES O FFRAINC

## Lowri Haf Cooke yn holi Rhodri Ellis Owen



*Mae Rhodri Ellis Owen, sy'n 51 oed ac yn wreiddiol o Greigiau, yn gyfarwyddwr ar gwmni LGBTQ Real Estate yn Neffies, Occitane, De Ffrainc.*

**Un o ble ydych chi'n wreiddiol?**
Cefais fy ngeni yn hen ysbyty Dewi Sant yn Nhreganna a thyfu fyny wedyn ar gyrion Caerdydd ym mhentref Creigiau. Roedd bywyd pentrefol yn galluogi bywyd o wyrddni a chymuned glos ddwyieithog, er nad yn rhy bell o ganol dre os oedd angen.

**Ers pryd ydych chi'n byw yn Ffrainc a beth ydych chi'n ei wneud yno?**
Dwi wedi rhedeg busnes fy hun - cwmni cysylltiadau cyhoeddus Cambrensis - ers amser maith. Dwi dal yn gyfrifol am y cwmni ond dwi wastad wedi bod â diddordeb mewn datblygu eiddo yn fy amser hamdden ac roeddwn yn barod am sialens newydd. Roedd ceisio gwerthu tai i eraill yn apelio - a pham ddim yn Ewrop! - yn hytrach na phrynu rhai fy hun – '*been there done that!*'. Rwyf wedi teithio 'nôl a 'mlaen i Ffrainc ers fy mhlentyndod, ar wyliau, yna astudiais Economeg am flwyddyn ym mhrifysgol Toulouse yn y Nawdegau cynnar, a dyna gychwyn ar fy ngobaith o fyw yn Ffrainc rhyw ddydd. Yn 2019 fe fues i'n gweithio i asiant eiddo am chwe mis ym Mharis, cyn penderfynu symud i Ffrainc ar ddiwedd Hydref 2020 - i ddianc COVID adre a Brexit – i gychwyn gweithio ar fy liwt fy hun fel asiant prynu a gwerthu tai, gyda phwyslais ar y farchnad LGBTQ+.

**Beth yw'r sefyllfa yn Ffrainc ar hyn o bryd?**
Fe wnes i ddianc o Gymru cyn cau'r ffin gyda Lloegr ym mis Hydref 2020, dim ond i gyrraedd Ffrainc a darganfod sefyllfa hyd yn oed gwaeth. Dim teithio mwy na chilomedr ac am gyfanswm o awr y dydd, ac angen wedyn bod adre erbyn 7 y nos. Dim bwyta allan, dim coffi o dan yr haul yn gwylio'r byd a'r betws – yr holl reswm am fod yn Ffrainc! Mae pethau wedi gwella llawer ers hynny. Fe lwyddais i dderbyn fy mrechiad yma yn Ffrainc ac mae gen i'r *pass saintaire* sy'n fy ngalluogi i drafeilio trwy gydol Ewrop fel bo'r angen.

**Sut newidiodd eich bywyd yn ystod yr argyfwng Covid?**
Roeddwn i adre yng Nghreigiau yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Dathlais fy mhen-blwydd yn 50 o dan gyfyngiadau Covid ac fe fu rhaid cau'r busnes am y tro. Roedd pawb yn yr un sefyllfa, ond pan ddaeth ail *lockdown* ym mis Hydref fe benderfynais nad oeddwn am fod ar ben fy hun mewn fflat yng Nghaerdydd am y gaeaf diolch yn fawr. Doeddwn i heb feddwl mwy na dianc i Ffrainc. Penderfyniad sydd wedi trawsnewid fy mywyd. Diolch i Covid a Brexit mewn ffordd.

**Beth yw patrwm arferol eich diwrnod ar hyn o bryd?**
Does dim patrwm mwyach a dyna sydd yn fy siwtio. Mae bywyd yn Ffrainc yn dra gwahanol i adre. Mae'r gallu i weithio drwy gyfrwng Zoom neu Teams wedi trawsnewid popeth. Mi allai eistedd gyda choffi mewn café yn Ne Ffrainc wrth weithio 'nôl yng Nghymru. Rwy'n rhydd o'r '9-5' ac wedi ffeindio modd i weithio a mwynhau. Dwi 'ond 20 munud o'r môr ac yng nghanol gwinllanoedd enwog yr ardal. Oherwydd y cyfyngiadau Covid yn Ffrainc rwyf wedi dod i adnabod nifer o bobl yn y gymuned leol, ac wedi cael fy nerbyn fel yr unig Gymro, ac mae'r gallu i siarad Ffrangeg wedi bod o gymorth mawr wrth greu ffrindiau newydd. Cyrhaeddais heb nabod neb ond erbyn nawr rwy'n teimlo fel fy mod i 'adre'. Rwy'n colli fy nheulu a ffrindiau adref ond gyda'r cyfyngiadau yn gwella rwy'n medru hedfan 'nôl fel bo'r angen.

**Beth ydych chi wedi'i ddysgu dros y flwyddyn a hanner diwethaf?**
Mae Covid a Brexit wedi agor drysau i mi mewn ffyrdd hollol annisgwyl. Rwyf wedi bod yn aros dros 10 mis ond wedi clywed yn ddiweddar bod fy nghais am breswyliad Ffrengig wedi bod yn llwyddiannus. Mae hyn yn meddwl fy mod yn medru gweithio a thrafeilio fel person o Ffrainc am y 5 mlynedd nesaf o leiaf heb orfod poeni mwyach am gyfyngiadau Brexit a visa ag ati! Rwy'n Ewropeaidd unwaith yn rhagor ac mae'n teimlo'n ffantastig. Roedd un cyfle gen i - rhaid oedd i mi brofi fy mod yn byw yn Ffrainc cyn 31 Rhagfyr 2020 - ac roeddwn yn lwcus i fod yn y lle iawn ar yr amser iawn.

**Oes gyda chi neges i rannu gyda darllenwyr *Y Dinesydd?***
'Bydd yn ddewr'. Dyna oedd geiriau olaf fy Mam i mi ac mae wedi aros gyda mi. Hi sydd ar fai am fy nghariad at Ffrainc, a dyma fi! Mae'r ffaith fy mod nawr yn medru gweithio a byw yn Ffrainc yn cynnig cyfleoedd anhygoel i ddatblygu fy ngobeithion busnes yma. Rwyf wedi creu partneriaethau gydag asiantaethau eiddo ledled Ewrop i ddod a phrynwyr a gwerthwyr LGBTQ+ at ei gilydd. Fe fydd gwefan newydd yn cael ei lansio cyn bo hir a chychwyn go iawn ar ddatblygu menter newydd a bywyd newydd yma ar y cyfandir. Rwyf yn gweithio yn barod yn Sbaen, yr Eidal, Groeg, Montenegro, yr Unol Daleithiau a Ffrainc a gobeithio lledaenu i nifer o wledydd eraill dros y misoedd nesaf. Rwy'n edrych ymlaen at y dyfodol ond hefyd i ymweld â Chaerdydd yn rheolaidd i gadw mewn cysylltiad gyda fy ffrindiau a theulu yng Nghymru hefyd.

Am ragor o wybodaeth am fusnes Rhodri ewch i www.lgbtq-realestate.com

# Merched y Wawr Bro Radur

Cerddor a chyfansoddwr sy'n adnabyddus yng Nghymru ac yn rhyngwladol oedd ein gwestai ar nos Fercher 8 Medi. Magwyd Robat Arwyn ar aelwyd gerddorol yn Nhal-y-sarn, Dyffryn Nantlle. Dechreuodd gyfansoddi wedi iddo gael gitâr, ac astudiodd am radd mewn Cerddoriaeth yma yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Yna, gan ei fod hefyd wrth ei fodd yn darllen llyfrau Cymraeg a Saesneg, aeth ymlaen i gymhwyso'n llyfrgellydd a pharhau i fwynhau cerddoriaeth yn ei oriau hamdden. Dechreuodd yn ei waith llyfrgellyddol yng Nghlwyd, a dal ati wedyn yn y Sir Ddinbych newydd.



Bellach, ers iddo ymddeol bum mlynedd yn ôl, mae cerddoriaeth yn llenwi ei fyd, a hynny er llawenydd i ni sydd wedi mwynhau ffrwyth ei ddawn dros y blynyddoedd, ac yntau'n aelod o driawd Trisgell ac yn arweinydd Côr Rhuthun.

Cawsom hanes cefndir amrywiol nifer o'i ganeuon, a diddorol oedd clywed ein gŵr gwadd yn esbonio mai geiriau effeithiol sy'n ysbrydoli'r gerddoriaeth. Cyfeiriodd at y pleser a gafodd o gydweithio gyda Hywel Gwynfryn, wrth gyfansoddi'r gerddoriaeth ar gyfer geiriau'r gân adnabyddus 'Anfonaf Angel'. Soniodd hefyd am y sioe gerdd 'Hwn yw fy Mrawd', ac am y geiriau gan Mererid Hopwood adeg Eisteddfod Genedlaethol Y Bae yn 2018. Cyfansoddodd yn ogystal i eiriau gan y Prifardd Robin Llwyd ab Owain a'r diweddar Derec Williams, Cwmni Theatr Maldwyn, ymhlith eraill. Clywsom fod cryno ddisg newydd wedi ymddangos a bod nifer o'r caneuon a ganodd i ni ar y noson i'w clywed ar y ddisgen honno, dan y teitl *Caneuon Robat Arwyn: Dal y Freuddwyd*, y trydydd casgliad.

Rhannwyd â ni ar y noson ganeuon gwefreiddiol yn y cywair llawen a dwys. Roedd ambell gân yn llawn gobaith am yfory, ac yn 'Wedi Dwlu' roedd yr hiwmor yn denu gwên a chwerthin.

Uchafbwynt ei yrfa hyd yma, o bosib, yw ei record *Benedictus* sydd wedi cyrraedd miloedd lawer ar draws y byd. Roedd y stori a rannodd am sut y bu'n agos i gymryd y comisiwn yn ysgafn yn dweud cyfrolau am ei natur ddiymhongar.

Noson i'w thrysori yn y cof.

Ar 3 Tachwedd 2021, Carys Huws fydd yn rhannu â ni ei hanes ym myd ffotograffiaeth a ffilm a'i phrofiad o fyw yn ninas Berlin.

## Busnesau Bwyd Parc Fictoria a'r Gymraeg

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Stryd Fawr Parc Fictoria wedi troi'n frith o fusnesau bwyd annibynnol gyda llawer o'r rhain yn cael eu rhedeg gan Gymry Cymraeg.

Mae *LetThemSeeCake* yn siop gacennau sy'n creu cacennau menyn trawiadol ar gyfer achlysuron arbennig ac maent hefyd yn gwerthu macarons ffres a danteithion melys eraill. Sefydlodd Gareth Davies, sy'n wreiddiol o Aberystwyth, y busnes yn 2017 gyda'i bartner Ryan Rowe. Mae Gareth wedi ennill nifer o wobrau am gynllunio cacennau ac mae Ryan yn dysgu Cymraeg.

Yn ôl Gareth a Ryan:
"Mae *LetThemSeeCake* yn siop ddwyieithog ac rydym yn falch iawn o hynny. Mae pob un o'n staff blaen yn ddysgwyr Cymraeg i wasanaethu'r cwsmeriaid."

Byrgyrs *Ansh* yw'r lle i fynd os am gael Big Mac moethus. Mae'r busnes yn cael ei redeg ar y cyd rhwng Aled Hill sy'n gyn athro ysgol gynradd a Shaun Jones, perchennog cigyddion Oriel Jones. Daw'r cig felly o'r fferm deuluol ger Llanybydder a dathlir y Gymraeg, hanes a diwylliant Cymru gyda'i byrgyrs sydd i gyd wedi'u henwi ar ôl Cymry nodedig - Ray Gravell, Nansi Richards, Barti Ddu, T. Llew Jones a'i byrgyr newydd Betty Campbell.

Gallwch gael brecwast neu ginio yng Nghegin *Parc Deli*. "Archebwch ar-lein i'w gasglu neu ei gludo i'ch cartref. Ry'n ni hefyd yn darparu arlwyaeth i ddigwyddiadau, y gweithle, parti neu ddigwyddiad preifat" meddai'r perchennog y dramodydd Alun Saunders, sydd hefyd yn perfformio dan yr enw Connie Orff. Mae wedi bod yn rhedeg y Parc Deli gyda'i gyd berchennog ers 2015.



Mae Bloc wedi'i leoli yn hen doiledau cyhoeddus Parc Fictoria ac mae'r café yn lle poblogaidd i weld comedi *stand up* Cymraeg gydag Esyllt Sears a Carys Eleri wedi perfformio yno. Ac fe allwch chi brynu copi o'r *Dinesydd* o fis Hydref i'w ddarllen gyda'ch cappucino.

Felly, ewch am dro i Barc Fictoria a chael coffi a chlonc yn *Bloc*, panini caws a ham o *Parc Deli*, cacen o *LetThemSeeCake* a byrgyr Betty Campbell o *Ansh*. Hyfryd a blasus!

*Iestyn Davies*

# Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd

Yn ystod mis Medi, cafwyd amrywiaeth testunau i'r cyfarfodydd ar Zoom gan ddau siaradwr gwahanol eu cefndiroedd a'u diddordebau.

Dewisodd Y Parchedig Aled Gwyn, yr Eglwys Newydd, destun eang ei brofiad wrth "*Fynd yn Hŷn*". Adnabyddir ef fel gweinidog, pregethwr, bardd yr Eisteddfod Genedlaethol ac adroddwr poblogaidd. Pwysleisiodd fod mynd yn hŷn yn gwneud i'r corff 'gratshan' dipyn ond fod y côf yn dod ag atgofion amrywiol dirifedi a gwerthfawr. Cofiodd iddo fe a'i ddau frawd Jim a John, dau fardd enwog arall, gael prifathro llengar yn eu plentyndod, tad oedd yn limrigwr dawnus ac aelwyd yn Parc Nest, Castell Newydd Emlyn, lle roedd cerdd dafod yn bwysig i'w ymarfer, a hyd yn oed y forwyn yn gyson yn siarad am *poetry*. Bu athrawes Ysgol Uwchradd Llandysul, Miss Carron, yn gefnogol iddo feistroli'r cynganeddion yn gynnar. Daeth dan ddylanwad mawrion fel W. R. Evans (o Bois y Frenni - boddfa o chwerthin), Waldo a Dewi Emrys. Trysora gyfeillgarwch T. Llew Jones, Dic Jones a Bois y Cilie, ac yn arbennig Isfoel a'i ddawn delynegol, un o deulu rhyfeddol o feirdd gwlad. Soniodd mai ei arwyr cenedlaethol oedd Gwenallt, R. Williams Parry a T. H. Parry Williams. Gorffennodd drwy adrodd cerdd Waldo "Y Tangnefeddwyr". Cafwyd orig hapus a gwerthfawr yn nghwmni un o anwyliaid llengar ein cenedl.

Croesawyd Jane Blank o Lanrhystud ar Fedi 24ain i siarad am hanes Plasdy Nanteos, ger Aberystwyth. Yn enedigol o Sheffield, soniodd am ei chysylltiad teuluol ag Eglwysfach, Machynlleth. Mae wedi llwyddo i ddysgu siarad Cymraeg yn rhugl. Astudiodd Saesneg a Drama gan arbenigo mewn Ysgrifennu Creadigol, ac mae'n ddarlithydd, ac yn aelod o Academi Ysgrifenwyr Cymru. Mae wedi cyhoeddi nofelau yn cynnwys dwy ar hanes plasdy Nanteos - "*The Shadow of Nanteos*" a "*The Dipping Pool*". Canolbwyntiodd ei darlith ar hanes y plasdy a theulu'r Jonesiaid, ac yn arbennig deulu Syr William Powell a'i fab Syr Thomas Powell, barnwr ac aelod seneddol. Croniclir hanes y teulu yn y ddwy nofel. Pwysleisir pwysigrwydd awydd y Poweliaid i godi eu statws, i briodi i deulu cefnog yn Llundain ac i adeiladu *Nanteos*. Hefyd, dysgwyd am hanes eiddo'r teulu, sef y pyllau plwm i'r gogledd o Aberystwyth, eu llwyddiant a'u colledion mawr. Hefyd, cyfeiriodd at y Greal Sanctaidd – *Cwpan Nanteos* – a'i gysylltiad a'r Groes, a'i allu honedig i wella doluriau'r werin os yfent ohono. Mae e nawr yn y Llyfrgell Genedlaethol ar ôl bod ar goll am flynyddoedd. Gwnaeth ddisgrifiadau byw a manwl Jane awydd ar y gwrandawyr i ddarllen ei nofelau ac i ymweld â Plas Nanteos, sydd nawr yn westy.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Zoom dydd Gwener, Hydref 8fed – siaradwraig Gwyneth Davies, ymchwilydd "*Heno Aur*", Tinopolis. Mae croeso i chi ymuno trwy gysylltu ar e-bost - <aelwydhamdden@gmail.com>.

## Ar Drywydd Enwau Lleoedd: Yr Athro Gwynedd O. Pierce:

Yn rhifyn Mehefin o'r *Dinesydd*, cawsom glywed am ben blwydd yr Athro Gwynedd O. Pierce yn gant oed, a'r ffaith fod Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru ar fin cyhoeddi ei chyfrol gyntaf er mwyn dathlu'r garreg filltir arbennig honno.

Erbyn hyn, mae *Ar Drywydd Enwau Lleoedd: Casgliad o Ysgrifau i Anrhydeddu'r Athro Gwynedd O. Pierce ar ei Ben Blwydd yn Gant Oed* (wedi ei golygu gan Gareth A. Bevan, Angharad Fychan, Hywel Wyn Owen ac Ann Parry Owen) wedi ymddangos o'r wasg.

Yn y gyfrol hon cawn glywed am enwau o wahanol rannau o Gymru a'r Gororau: enwau lleoedd Cymraeg Caerdydd; enwau strydoedd Aberaeron; enwau mewn hen destunau canoloesol; enwau ardal Caernarfon – tref enedigol yr Athro Pierce – gan gynnwys enwau lleiniau pysgota a throbyllau yn y Fenai, i nodi dim ond rhai. Cawn hefyd wybod am hanes yr ymgyrch i safoni enwau lleoedd Cymru (gan esbonio rhan allweddol yr Athro Pierce yn y gwaith hwnnw) a gwaith Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn hybu prosiectau cymunedol i gofnodi a gwarchod ein henwau lleoedd. Ceir hefyd erthyglau gan arbenigwyr o Iwerddon, yr Alban a Chernyw – gan gynnwys trafodaeth ar y cyswllt rhwng ein Penarth ni a'r un Penarth ar ddeg sydd yng Nghernyw.

Wrth i'r cyfyngiadau lacio dros yr haf, hyfrydwch oedd gallu trefnu cyfarfod bychan yn Archifau Morgannwg ar 27 Awst i gyflwyno copi o'r gyfrol yn ffurfiol i Gwynedd. Roedd tri o'r pedwar golygydd wedi gallu teithio i Gaerdydd, ac fe gafwyd areithiau byrion gan yr Athro Hywel Wyn Owen, a chan Dr Dylan Foster Evans, cadeirydd y Gymdeithas. Cafwyd diddanwch mawr wrth glywed Gwynedd ei hun yn dwyn i gof hynt a helynt ei yrfa a pheth o hanes ei gyfraniad anhepgor i faes enwau lleoedd.

*Dr Dylan Foster Evans*



## Diolch am destun diolch



Dyna'r fraint a'r fendith amheuthun a dderbyniais i o gael paratoi'r gyfrol, *Meddyg y Galon Glwyfus. Gofal am Iechyd Meddwl, a Chymwynas Fawr Dr David Enoch.* Cyfrol clawr caled gyda 104 o luniau a phob llyfr wedi'i rifo.

Mor llawen yr oeddwn o gael talu teyrnged i'r seiciatrydd enwog, y Dr David Enoch, Caerdydd, 95 mlwydd oed. Yr un modd, cael diolch, er enghraifft, i'r meddygon a'r seiciatryddion: Dr Tom Davies (1931-2019) a'r Dr Rosina Davies; Dr Dafydd Huws (1935-2011), Caerffili; Dr Harri Pritchard Jones (1933-2015), Caerdydd; a'r Dr Huw Edwards, Caerdydd.

Gwneir apêl ddwys yn y gyfrol hefyd ar i Lywodraeth Prydain roi'r flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Iechyd ac i ymchwil meddygol, yn hytrach na gwario biliynau lawer ar filitariaeth ac arfau rhyfel a niwclear. Yng ngeiriau Pryderi Llwyd Jones: 'Nid bomiau i ladd, ond iechyd i'r claf.'

Wedi talu costau'r gyfrol arbennig o hardd hon, a'r pris yn £15 yn unig, dosberthir unrhyw elw rhwng Gofal Dydd Waengoleugoed, ger Llanelwy, a'r Stafell Fyw yng Nghaerdydd.

Diolch o waelod calon i bawb yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg - ac ym mhob bro arall drwy Gymru gyfan a thu hwnt am bob gofal a chariad, yn arbennig yn y cyfnod pryderus hwn.

Rwy'n cloi'r nodyn hwn drwy ddyfynnu rhan o hen bennill telyn. Canmil diolch i ddarllenwyr Y *Dinesydd* am eu cefnogaeth. A phob bendith.

Mae'r esgid fach yn gwasgu
Mewn man na wyddoch chwi,
A llawer gofid meddwl
Sy'n torri nghalon i.

*Robin Gwyndaf*

ARWYDDO'R GYFROL
Gwahoddiad caredig gan Siop Caban, Caerdydd. Dewch i'r siop, bore Sadwrn, 30 Hydref 2021, 10.00 – 12.00, a bydd yr awdur yn arwyddo'r gyfrol.




## Y DIGWYDDIADUR MIS HYDREF

### HYDREF 2021

**Llun, 11 Hydref**
Cylch Cadwgan. Noson yng nghwmni Lleucu Roberts, enillydd Gwobr Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod AmGen eleni. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys Roberts (groberts@btinternet.com).

**Iau, 14 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Siaradwr gwadd: Aled Roberts (Comisiynydd y Gymraeg). Croeso cynnes i bawb. I archebu lle, cysylltwch â'r Cadeirydd, Rowenna Thomas (rowenna@gmail.com; 029-2049-3666), erbyn 7 Hydref.

**Gwener, 15 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. Sgwrs gan Dr Rhiannon Marks, a fydd yn mynd ar drywydd y stori fer Gymraeg. Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach a'r ddolen Zoom, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Iau, 21 Hydref**
Menter Caerdydd. Trin a thrafod blodau a phlanhigion yr hydref yng nghwmni Wendy o 'Blodau Blodwen'. Am 11.00am trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. Am fanylion pellach, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 22 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. 'Pam a Sut y Dihangodd yr Ysbïwr?' Cyflwyniad gan y Llywydd newydd, Bill Davies, am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwynn Matthews (m.g.derwendeg@gmail.com).

**Llun, 25 Hydref**
Menter Caerdydd. Sgwrs gan Carwyn Graves ar y testun 'Cennin a chig oen? Golwg newydd ar fwyd Cymru'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. Am fanylion pellach, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Sadwrn, 30 Hydref**
Bydd Robin Gwyndaf yn arwyddo ei gyfrol newydd, *Meddyg y Galon Glwyfus: Gofal am Iechyd Meddwl, a Chymwynas Fawr Dr David Enoch*, sef cyfrol yn diolch i bawb am bob gofal a chariad, yn Siop Caban, rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch.

Digwyddiadur Tachwedd ar dud. 21.

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James**

**Gweler manylion cysylltu ar dud. 2**




Mae'n fis Hydref yn barod ac mae gweithgareddau'r tymor yn eu hanterth. Braf yw gweld y clybiau poblogaidd i blant ac oedolion yn dychwelyd gyda nifer yn cwrdd wyneb yn wyneb. O *Amser Stori* i *Pilates*, mae cyfle i bobl o bob oed ddod at ei gilydd yn ddiogel.

Os ydych chi wedi ymddeol ac yn hoff o gerddoriaeth, beth am ddod i Ganolfan Beulah, Rhiwbeina ar foreau Llun ar gyfer ein sesiynau newydd, Mewn Tiwn, mewn cydweithrediad â Live Music Now? Maen nhw'n rhad ac am ddim!

Noson arall i'r dyddiadur yw nos Fawrth, 19 Hydref pan fydd Aled Wyn Phillips yn cynnal cwis dwyieithog i bobl y Fro a thu hwnt yn y Tŷ Newydd Inn, Y Barri.

Cynhelir nifer o weithgareddau cyffrous ar Zoom hefyd dros yr wythnosau nesaf. Frank Olding fydd yn arwain y cyntaf o'n cyrsiau byrion ar hanes Cymru wrth iddo drafod cestyll y de-ddwyrain.

Bydd Nerys Howell yn ôl gyda mwy o ryseitiau tymhorol a bydd Wendy Davies yn creu trefniadau hardd gan ddefnyddio planhigion o'n gerddi. Carwyn Graves fydd gwestai 'Sgwrs y Mis' gan gynnig golwg newydd ar fwyd Cymru.

Wrth edrych ymlaen at hanner tymor, bydd ein 'Cynllun Gofal' yn rhedeg bob dydd yn Ysgol Treganna ac Ysgol Melin Gruffydd a bydd 'Bwrlwm' yn dychwelyd gyda sesiynau chwarae rhad ac am ddim.

Bydd Menter Caerdydd hefyd yn cynnig sesiwn blasu 'Sgwad Sgwennu', ar y cyd gyda Llenyddiaeth Cymru (blynyddoedd 5 i 8), yng nghwmni Bardd Plant Cymru, Gruffudd Owen. Draw ym Mro Morgannwg, bydd Gweithdy Coginio i blant ysgol gynradd yng nghwmni Ruth Thomas o Cook Stars.

Wrth gofrestru ar gyfer gweithgareddau, cofiwch ddweud, 'Helô,' wrth Mari Owens (Swyddog Datblygu Gwasanaethau Plant) a Lauryn Carreg (Swyddog Ieuenctid) sydd wedi ymuno â'r tîm dros yr haf.

Am ragor o wybodaeth am ein gweithgareddau, ewch i: mentercaerdydd.cymru / menterbromorgannwg.cymru neu'r cyfryngau cymdeithasol neu cysylltwch: post@mentercaerdydd.cymru / 2068 9888.

# Merched y Wawr Caerdydd

## Cyfarfod go iawn gyda Rhys ab Owen

Roedd yna lawenydd mawr wrth i ni gwrdd gyda'n gilydd "go iawn" unwaith eto i ddechre tymor newydd. Dyma gadarnhad o bwysigrwydd cymdeithas a gwerth cwmnïaeth. Cawsom noson ddifyr iawn yng nghwmni yr afieithus Rhys ab Owen a fu'n trafod gwaith ymchwil ei dad Owen John Thomas ar hanes y Gymraeg yng Nghaerdydd. Mae'n hanes pwysig sy'n chwalu'r myth nad oedd y Gymraeg yn bodoli yng Nghaerdydd tan yn gymharol ddiweddar. Dyma hanes sy'n werth ei ddeall! Gellir darllen ymhellach am hyn yn llyfr Owen John Thomas *The Welsh Language in Cardiff - a history of survival.* Roeddem yn ddiolchgar i Rhys am roi o'i amser prin a fynte bellach yn Aelod prysur o'r Senedd.

Llywydd y noson oedd Rosina Davies, Cadeirydd newydd y gangen. Mae croeso cynnes i aelodau newydd.

***Rhys ab Owen a Rosina Davies***



# Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd meysydd llên, crefydd a hanes yng Nghaerdydd a'r Fro*



## Yr Athro E. Wyn James

**William Preece, Arbrofion Edison a Marconi, a Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru** (Rhan 2)

Yn rhan gynta'r erthygl hon, yn rhifyn Medi 2021 o'r *Dinesydd*, soniwyd am bwysigrwydd allweddol y ffonograff i waith casglu Ruth Herbert Lewis a Mary Davies, rhai o arloeswyr Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn nechrau'r 20fed ganrif.

Fel y nodwyd yn rhifyn Medi, dyfeisiwyd y ffonograff gan yr Americanwr, Thomas Edison, yn dilyn sgwrs â Syr William Henry Preece (1834–1913), brodor o Gaernarfon a oedd yn beiriannydd trydanol amlwg iawn yn Oes Victoria. Bu William Preece yn ffigwr o bwys ym myd telegraffiaeth yn arbennig, yn enwedig yn rhinwedd ei swydd fel un o uchel swyddogion Swyddfa'r Post. Chwaraeodd ran amlwg hefyd yn nechreuadau'r Gymdeithas Alawon Gwerin yn 1906, ac yn 1908 prynodd beiriant ffonograff 'Edison "Gem"' at ddefnydd y Gymdeithas.

Gorffennwyd yr erthygl yn rhifyn mis Medi trwy ofyn beth oedd cysylltiad hyn oll â Bro Morgannwg, ac at rai o'r cysylltiadau hynny y trown yn awr.

Gellid nodi, yn un peth, er i Mary Davies gael ei magu yn Llundain, mai brodor o Ferthyr Tudful oedd ei thad, y cerflunydd William Davies ('Mynorydd'); a daeth un o'r caneuon gwerin a gofnododd Mary Davies yng Nghwm Taf yn boblogaidd iawn, sef 'Dacw 'nghariad i lawr yn y berllan', a gasglodd yn yr Eglwys Newydd ym mis Medi 1908.

Yna, er mai yng ngogledd-ddwyrain Cymru roedd Ruth Herbert Lewis yn byw, ac mai yno y gwnaeth y rhan fwyaf o'i gwaith casglu caneuon gwerin, mae rhai o'i phapurau a nifer o silindrau ei pheiriant ffonograff (ynghyd â recordiadau digidol o rai o'r caneuon oedd arnynt) ynghadw bellach yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.



Cysylltiad arall yw mai'r cerddor ifanc dawnus o Drefforest, Morfydd Llwyn Owen, a drawsysgrifiodd ac a drefnodd nifer o'r alawon a gasglodd Ruth Lewis â'i ffonograff.

Ac ar ben y cyfan, mae cysylltiad agos rhwng William Preece a Bro Morgannwg, oherwydd un o'r Bont-faen oedd ei dad, Richard Matthias Preece.

Ganed R. M. Preece yn y Bont-faen yn 1797, a bu'n ddisgybl yn ysgol ramadeg enwog y dref honno. Mae'n amlwg mai magwraeth Saesneg a gafodd gartref yn y Bont-faen. Llanw a thrai fu hanes y Gymraeg ym Mro Morgannwg ar hyd y canrifoedd, ond roedd ail hanner y 18fed ganrif a hanner cyntaf y 19eg ganrif yn adeg o benllanw ar yr iaith yn y Fro, ac un o'r rhesymau pennaf dros hynny oedd twf mawr Methodistiaeth ym Mro Morgannwg o ganol y 18fed ganrif ymlaen, a'r addoli trwy gyfrwng y Gymraeg a oedd ynghlwm wrth hynny.

Mae R. M. Preece yn enghraifft dda o hyn, oherwydd yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun byddai'n mynd yn aml i wrando yng nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yn Aberthin, ger y Bont-faen, pan oedd yn fachgen; ac meddai yn 1839, 'yno, yn wir, yn eu hysgol Sul, y dechreuais ddysgu yr iaith Gymreig, enwog-iaith sydd yn awr mor gu gennyf'. Ond ymateb yn negyddol iawn a wnaeth Richard Preece i gynnwys Calfinaidd y pregethu a glywodd yn Aberthin, gan fwrw ei goelbren yn hytrach gyda'r Methodistiaid Wesleaidd a'u pwyslais diwinyddol Arminaidd.

Erbyn 1815 roedd R. M. Preece yn ysgolfeistr yng Nghaerffili, ond y flwyddyn honno symudodd i Gaernarfon, lle y bu'n ysgolfeistr cyn cael ei benodi'n ariannydd (*cashier*) ym manc cyntaf y dref, sef un 'Williams, Hughes & Co.' yng Nghei Banc. Yn 1817, priododd Jane Hughes (1799–1870), merch i saer llongau o Gaernarfon. Roedd eu mab, William, yn ddarlithydd hynod boblogaidd, ac ymddengys iddo etifeddu ei ddawn dweud gan ei dad, oherwydd roedd Richard Preece yn areithydd huawdl.

Daeth yn amlwg iawn fel pregethwr lleyg ac arweinydd dylanwadol ymhlith y Methodistiaid Wesleaid yng nghylchdaith Caernarfon a'r tu hwnt, ac yn amlwg hefyd ym mywyd cyhoeddus y dref, gan ddod yn Faer Caernarfon yn 1843. Bu hefyd yn weithgar iawn gyda Chymdeithas y Beibl a'r mudiad cenhadol.

Un radicalaidd ei ysbryd oedd R. M. Preece. Bu'n flaenllaw yn y symudiad i sefydlu cymdeithas wrth-gaethwasiaeth yng Nghaernarfon yn 1828, ac yn 1831 roedd yn un o brif sylfaenwyr y papur radicalaidd, y *Carnarvon Herald*. Roedd hwn yn gyfnod o wrthdaro gwleidyddol chwyrn rhwng y grymoedd ceidwadol a rhai mwy rhyddfrydol, a daeth pwysau mawr ar Richard Preece i fod yn llai radicalaidd neu wynebu colli ei

swydd yn y banc, ac erbyn y 1840au roedd wedi troi'n bur geidwadol ei wleidyddiaeth.

Bu newid mawr crefyddol hefyd yn ei hanes, oherwydd gadawodd y Wesleaid ac ymuno â'r Eglwys Wladol. Mewn cerdd am 'Ffyddloniaid Ebenezer, Caernarfon', sef achos y Wesleaid yn y dref honno, a gyhoeddwyd yn 1873, disgrifir R. M. Preece fel un hynod dalentog a gweithgar, ac yn areithydd coeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Disgleiriai'n hardd fel 'seren oleuol' am flynyddoedd, meddai'r bardd, ond 'rhyw orchudd du gwmwl ddaeth drosto'r prynhawn'.

Yn gynnar yn 1845, gadawodd R. M. Preece a'i deulu Gaernarfon am Lundain; ond digon helbulus fu ei hanes yno hefyd. Gweithiai ym myd y farchnad stoc ac yswiriant, ond aeth i drafferthion ariannol mawr yn 1852 a bu farw ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 56 mlwydd oed.

Er i'w fab, Willam Preece, fyw yn Lloegr am y rhan fwyaf o'i fywyd, ymwelai â Chymru'n gyson, a dychwelodd i ardal Caernarfon i fyw yn niwedd ei oes. Fel y nodwyd eisoes, fe ddaeth yn beiriannydd trydanol amlwg iawn yn ei ddydd ac yn un o uchel swyddogion Swyddfa'r Post, a diddorol gweld iddo gynnal nifer o'i arbrofion yng Nghymru, gan gynnwys rhai ym Mro Morgannwg.

Rhoddodd William Preece gefnogaeth frwd i ymdrechion Guglielmo Marconi, y peiriannydd o'r Eidal (ond ei fam yn Wyddeles), i ddatblygu telegraffiaeth ddi-wifr. Ar 13 Mai 1897 llwyddodd Marconi, gyda chymorth George Stephen Kemp (peiriannydd yn Swyddfa'r Post yr oedd Preece wedi ei glustnodi i gynorthwyo Marconi), i anfon y neges radio gyntaf erioed dros ddŵr agored, a hynny rhwng Trwyn Larnog ger Penarth ac Ynys Echni (*Flat Holm*), yn yr union le y bu William Preece ei hun yn cynnal arbrofion anfon signalau côd Morse bum mlynedd ynghynt, yn 1892.

Cysylltiad diddorol arall rhyngddynt, gyda llaw, yw bod Marconi wedi agor gorsaf drosglwyddo donfedd-hir ar lethrau Cefn Du uwchlaw Waunfawr, o fewn golwg i gartref William Preece ym Mhenrhos ger Caeathro, ychydig cyn i Preece farw yn 1913. Dyma, am flynyddoedd, yr orsaf bwysicaf o'i math ym Mhrydain.

A thybed ai cyd-ddigwyddiad ydyw fod Swyddfa'r Post wedi agor rhai o'i chyfnewidfeydd teleffon cyntaf oll yn nhrefi Abertawe a Chaerdydd a Chasnewydd, yn hen fro tad William Preece, a hynny yn gynnar yn y 1880au pan oedd William Preece erbyn hynny yn swyddog uchel yn Swyddfa'r Post?

## Trelái, y Terfysg a Jason Mohammad

Cafodd rhaglen DRYCH: *Trelái, y Terfysg a fi* ei ddarlledu'n ddiweddar ar S4C lle dychwelodd Jason Mohammad i'r stad lle cafodd ei fagu i ddarganfod pam ddigwyddodd y terfysgoedd ar strydoedd Trelái dri deg mlynedd yn ôl a sut mae'r cyfnod yn dal i effeithio ar bobl yr ardal heddiw.



Roedd Jason yn ei arddegau pan ddigwyddodd 'terfysgoedd bara' Trelái yn 1991. Bu sawl diwrnod o drais yno yn dilyn dadl rhwng perchnogion siop. Ond mae'n dweud gallai ei fywyd fod wedi dilyn trywydd gwahanol iawn. Mae Jason, sy'n dal i fyw yng Nghaerdydd gyda'i deulu, yn credu fod stigma'r gorffennol yn dal i amharu ar ddyfodol pobl ifanc Trelái heddiw.



Mae'r cyflwynydd yn cydnabod ei ddyled i'w athrawon yn Ysgol Uwchradd Glyn Derw ac yn arbennig ei athrawes Gymraeg, Valmai Griffiths sy'n ymddangos ar y rhaglen. Hi wnaeth annog Jason i barhau gyda'r iaith ac i astudio am radd yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Dywedodd Jason: "Mae astudio Cymraeg wedi newid fy mywyd. Dyna pam o'n i'n 'neud gradd yn y Gymraeg - dyna pam dwi'n siarad Cymraeg oherwydd Valmai."

Roedd cyfraniadau i'r rhaglen yn ogystal gan Tim Hartley oedd yn newyddiadurwr gyda'r BBC ac yn gohebu ar y terfysg ac Eluned Morgan oedd yn siarad am ei thad y Parchedig Bob Morgan fu'n gweithio ar stad Trelái.

Cynhyrchwyd y rhaglen gan Hall of Mirrors ac mae'r rhaglen ar gael ar wasanaeth ar alw S4C.

# NEWYDDION O'R EGLWYSI

## TABERNACL, YR AIS

Ddydd Sadwrn ola mis Medi, cynhaliwyd oedfa i ddiolch am weinidogaeth arbennig y Parchg Denzil John yn y Tabernacl am dros 30 o flynyddoedd. Y pregethwr gwadd yn yr oedfa hon oedd y Parchg Rob Nicholls, cyn aelod a diacon yn y Tabernacl. Erbyn hyn mae Rob yn weinidog yng Nghapel Castle Street yn Llundain. Croesawyd pawb ar y dechrau gan Llinos Metcalf a fagwyd yn yr eglwys ac sy'n ddiacon ffyddlon erbyn hyn. Cafwyd eitem a luniwyd gan Mair Long i blant ifanc y capel ac hefyd ddatganiad gan Gôr y Tabernacl – "Gwyn ein byd" gan Euros Rhys a Lisa Tiplady. Derbyniwyd teyrngedau a diolch am waith Denzil gan Gwen Thomas ar ran Cymanfa Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg, Y Parchg Judith Morris, Llywydd Undeb y Bedyddwyr yng Nghymru, Y Parchg Alun Tudur a gynrychiolodd Eglwysi Caerdydd a'r Cylch a Rhys ab Owen gyflwynodd werthfawrogiad ar ran aelodau'r Tabernacl ei hun. Roedd yn achlysur hapus i bawb.

Llongyfarchiadau i Siwan Sloman wrth iddi ddechrau ar ei swydd newyddd fel cyfieithydd i GIG yng Nghymru. Bydd yn gweithio o'i chartref yn Llundain ond yn ymweld â'r swyddfa yng Nghaerdydd yn rheolaidd.

Ganol Mis Medi, bu'r Clwb Darllen yn trafod *Cofiwch Olchi Dwylo* gan Geraint Lewis.

Cynhaliwyd oedfaon bob bore Sul ym mis Medi. Mawr yw ein diolch i Lisa Tiplady, Marc Jon Williams, Dr Dai Lloyd a Rob Nicholls am eu cyfraniadau. Yn yr un modd diolchwn i Lona Roberts, Denzil John, Alun Tudur a Rob Nicholls am lywio'r gwasanaethau yn y cyfarfodydd hwyrol.



*Plant y Tabernacl yn Oedfa Ddiolch Denzil*

Ar ddiwedd y mis, daeth y newyddion trist am farwolaeth Margaret Raymond Williams, gwraig y diweddar Parchg Raymond Williams, a fu'n weinidog Y Tabernacl cyn y Parchg Denzil John. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu i gyd.

## EGLWYS MINNY STREET

www.minny street.org @MinnyStreet
Gweinidog: Y Parchedig Owain Llyr Evans

Mae Eglwys Minny Street yn parhau i ddilyn camau diogelwch cyson mewn oedfaon a chyfarfodydd, yn cynnwys diheintio, gwisgo mygydau, sylw i awyru ac annog aelodau i gadw pellter cymdeithasol. Nid yw hi bellach yn ofynnol rhoi gwybod ymlaen llaw er mwyn mynychu oedfaon yn y capel. Gan nad yw pawb yn gallu dod i'r oedfaon yn y capel, mae modd dilyn yr addoliad ar fore Sul a'r cyfarfod ar fore Mercher ar Zoom.

**Oedfaon y Sul a'r Ysgol Sul**

Edrychwn ymlaen yn fawr at arweiniad ein Gweinidog yn ystod oedfaon bore a hwyr 3, 10, 17 Hydref. (Oedfa gynnar fydd oedfa bore Sul 10 Hydref.) Edrychwn ymlaen hefyd at gydaddoli o dan arweiniad cyfeillion ar ymweliad yn oedfaon 24 a 31 Hydref.

Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod ar 3, 17 a 24 Hydref, ond nid ar 31 Hydref. Cynhelir oedfa gymun nos Sul, 3 Hydref.

**Gweithgarwch y mis**

Braf yw nodi y bydd PIMS yn ailgydio nos Fercher, 6 Hydref a nos Iau, 21 Hydref (19:30–20:30). Yng nghyfarfodydd MATH ar 13 a 20 Hydref, bydd cyfle i fyfyrio, astudio a thrafod. Ar Zoom y bydd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yn cael ei chynnal nos Fawrth, 5 Hydref.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchwn ac anfonwn gyfarchion cynnes at ein haelod hynaf, Mr Watcyn Jones, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed ym mis Awst.

**Genedigaeth**

Croeso cynnes i Gwern Russell Lewis, mab Llŷr Gwyn a Lowri (Parc Fictoria) a brawd bach i Math. Pob dymuniad da i'r teulu.



*Denzil a diaconiaid y Tabernacl*

## EBENESER

**Derbyn ieuenctid**

Yn addoliad bore Sul, 5ed o Fedi derbyniwyd dau o'n hieuenctid 18 mlwydd oed yn aelodau llawn. Dyna braf oedd bod Seren Ann Jones a Gruffydd Jones wedi penderfynu eu bod am gael eu derbyn i'r aelodaeth. Mae'r ddau wedi bod yn weithgar iawn yn yr eglwys gyda Seren yn helpu gyda'r plant lleiaf yn yr Ysgol Sul a Gruffydd yn chwarae ei sielo yn y band mawl.

**Coleg**

Mae pump o'n hieuenctid yn mynd i golegau i ddilyn cyrsiau amrywiol. Mae Gruffydd Jones yn mynd i Brifysgol Nottingham i ddilyn cwrs Peirianneg Electroneg, Mae ei chwaer, Branwen, yn gwneud Meddygaeth yn Abertawe, Cian Rosser yn mynd i Abertawe i ddilyn cwrs Athroniaeth a Seren Ann Jones yn mynd i Goleg Caerdydd a'r Fro i ddilyn cwrs Gofal Plant. Bydd Lowri Tudur yn dechrau ar gwrs M.A. mewn Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Pob dymuniad da iddyn nhw.

**Cofio Dr Denzil**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth un o'n aelodau hynaf sef Dr Denzil Davies, Penarth ar 30 Medi. Bu Denzil a Beti Wyn yn aelodau ffyddlon o eglwys Ebeneser ers y pumdegau ac yr oedd eu cyfraniad i fywyd yr eglwys yn fawr iawn. Diolchwn i'r Arglwydd am Denzil ac am ei waith fel diacon am ddeugain mlynedd. Yr ydym wedi colli cyfaill triw a ffyddlon. Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda Beti Wyn, Paul a Helen a'u teuluoedd yn eu colled gan weddïo y bydd atgyfodiad Iesu o gysur iddynt.

**Llanllanast**

O'r diwedd, ar ôl cyfnod mor anodd, mae Llanllanast yn ôl ers Sul cyntaf mis Hydref, a'r bwriad yw ei gynnal ar Sul cyntaf bob mis. Felly, dewch deuluoedd gyda'ch plant a dewch a ffrindiau. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni drwy Messenger ar Facebook.

**Angor, Grangetown**

Mae cyfarfodydd wedi ail ddechrau yng nghaffi Lufkin, Grangetown, bob yn ail Sul am 4:30. Mae'r cyfarfod yn anffurfiol a phaned am ddim. Mae croeso i unrhyw un fynychu gyda chroeso i deuluoedd a phlant.



*Alun Tudur, Seren a Gruffydd*

## BETHEL, PENARTH

Anfonwn ein cariad mwyaf cynnes at sawl un o'n haelodau sy'n troedio llwybrau heriol gwahanol anhwylderau. Da deall bod pob un yn mynd i'r cyfeiriad iawn. Cofiwn hefyd am eu teuluoedd sy'n cario baich gofal a gofid, yn y cefndir.

Ddydd Sadwrn, Medi 25 cynhaliwyd seremoni sefydlu Steffan William, aelod yn Y Tabernacl, Y Barri, yn Faer y Dref. Traddodwyd anerchiad gan Gaplan y Maer, sef, Y Parchedig Kevin Davies. Anfonwn gyfarchion i'r Maer a dymuniadau da am flwyddyn ddedwydd

Bu'n Gweinidog yn arwain yn yr oedfaon canlynol.

Medi 5ed – Actau 10, 1 – 43 (a ddarllenwyd o'r sgrin gan bawb) dan y pennawd Pedr a Cornelius. Yn y myfyrdod fe'n heriwyd i beidio â bodloni ar yr hen arferion traddodiadol, cyfarwydd, cysurlon, ond i fentro a bod yn fodlon croesawu golwg newydd, fel y bu galw ar Bedr i wneud.

Medi 19 – Ezeciel 22, 30 'Chwiliais am ddyn ….allai adeiladu mur….'. Roedd y myfyrdod yn ein tywys i ystyried yn ddwys ein sefyllfa bresennol o geisio llenwi bylchau yn rhestr swyddogion yr eglwys.

Medi 26 – Mathew 22, 1-14 (Betsan yn darllen) – Dameg y Wledd Briodas. Agorwyd ein meddyliau ar ddehongliadau o wahanol adrannau'r ddameg, o'r croeso (gwahoddiad) i'r dyfarniad (bwrw i'r tywyllwch)

## YR EGLWYS EFENGYLAIDD

**Cartref a Swydd Newydd**

Dymunwn bob hapusrwydd i Lois Adams yn ei chartref newydd yn Rhymni a phob bendith wrth iddi ddechrau ar ei swydd newydd yn yr eglwys a gyda Fforwm Arweinyddiaeth Cymru.

**Caerdydd i Aberystwyth**

Roedd yn golled fawr i'r eglwys yn ddiweddar wrth i Dan a Ffion Murdoch adael Caerdydd a symud i Aberystwyth, er mwyn i Ffion ymgymryd â'i swydd newydd fel meddyg yn Ysbyty Bronglais. Dymunwn yn dda iawn iddynt wrth iddynt setlo yn eu cartref newydd.

**Aberystwyth i Gaerdydd**

Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i Keith a Rhiain Lewis wrth iddynt symud i'r brifddinas ar ôl blynyddoedd lawer yn byw yn Aberystwyth. Bydd croeso mawr iddynt gan y teulu niferus yn y de ac edrychwn ymlaen at gael eu cwmni a'u cymdeithas.

**Brecwast Merched**

Cynhelir y brecwast merched fis nesaf, Hydref 16 am 10.30, yn adeilad yr eglwys yn Harriet Street. Bwriadwn drafod dwy bennod olaf ac epilog y llyfr *Gentle and Lowly*. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael ac estynnwn groeso i unrhyw ferched i ymuno â ni.

**Gweinidogaeth y Sul**

Mae Emyr James, ein gweinidog, wedi dechrau ar astudiaethau newydd o'r Beibl ar y Sul. Yn y bore rydym yn edrych ar ddamhegion Iesu Grist a'r gwersi pwysig sydd ynddynt i ni. Llyfr Galarnad yw maes ein hastudiaeth yn y prynhawn.

## EGLWYS Y CRWYS

Wedi brwydro'n ddewr am flynyddoedd yn erbyn afiechyd creulon, bu farw Mrs Eirlys Jones. Bu'n ffyddlon iawn i'r oedfaon er gwaethaf ei hiechyd a chafodd ofal arbennig ei merched, Iona a Lisa. Ein cydymdeimlad mwyaf â hwy yn eu profedigaeth.

Mae Mrs Gwen Roberts wedi symud i Gartref Gofal Bryn Ivor Lodge yn Castleton ac yn setlo'n arbennig o dda yno. Ein dymuniadau gorau iddi.

Mae Mrs Alys Jones wedi syrthio yn ddiweddar ac wedi torri asgwrn yn ei throed. Dymunwn yn dda ac adferiad buan iddi.

Ar ôl graddio mewn peirianneg, mae Kristov Gibbon wedi derbyn swydd yn Awstralia. Pob lwc iddo a brysied yn ôl.

Wrth i ni ddychwelyd i'r capel ac i barhau â'r gwasanaethau rhithiol, mae'n diolch mwyaf diffuant i'r rhai a fu'n gweithio mor galed yn ystod y cyfnod heriol diweddar. Diolch felly i Cerian Angharad, Peredur Owen Griffiths, Robin Owen a Thomas Williams am sicrhau ein bod fel aelodau yn gallu cyd-addoli a chyd-gymdeithasu.

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig iawn gyda phlant ac ieuenctid yr Ysgol Sul yn croesawu'r aelodau yn ôl i'r capel yn dilyn y cyfnod clo. Cafwyd cipolwg o'r gwaith enfawr a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y cyfod clo dros y 19 mis diwethaf a mawr yw dyled yr Eglwys i'r athrawon a'r rhieni am eu dyfalbarhâd gyda'r gwaith. Diolch i Hannah Thomas am baratoi'r gwasanaeth. Roedd yn braf clywed eu lleisiau mewn adroddiad gan Gwenfair Griffiths ar y rhaglen *Bwrw Golwg*.

Cafwyd gwledd o gyfarfod gan y Gymdeithas yng ngwir ystyr y gair pryd y cafwyd cwmni y gogyddes, Nerys Howells. Darparwyd pryd tri chwrs blasus. Diolch i Cerian Angharad am y trefniadau.

Yn ystod mis Hydref byddwn yn croesawu y Gweinidog i wasanaethu ar Hydref 3ydd a'r 17eg gyda Gwasanaeth Diolchgarwch y plant yn y bore. Mr William Tiplady fydd yn ein harwain ar Hydref 10fed; y Parchg Beti-Wyn James ar y 24ain, a Mr Emlyn Davies ar y 31ain. Croeso mawr i bawb i ymuno yn yr oedfaon am 10.30 a 6.00 o'r gloch.

## BETHLEHEM, GWAELOD Y GARTH

**Oedfaon (10:30 a.m. yn y capel ):**
**Hydref:**

3 - Diolchgarwch yr Ysgol Sul (Sylwer: Rhithiol)
10 - Parchg Gethin Rhys
17 - Parchg R. Alun Evans
24 - Parchg Aled Edwards
31 - Wynford Ellis Owen (Sul Adferiad)

Bydd yr Ysgol Sul yn cwrdd yn rhithiol yn ystod y mis.

**Cyfrol Newydd Cynog Dafis**

Ydych chi wedi cael cyfle i ddarllen cyfrol ddiweddaraf Cynog Dafis *Pantycelyn a'n picil ni heddiw*?

I ddyfynnu'r dudalen deitl, yr hyn ydyw, yn ôl ei addefiad ei hun – "*llythyr at y Cymry deallgar yn enwedig yr ifainc ynghylch pam y dylid talu sylw o'r newydd i Williams Pantycelyn*."

Meddai, "*Mi fyddaf yn treial esbonio wrth fynd ymlaen pam 'rwyn credu bod gan grefydd, a Christnogaeth yn benodol, ran bwysig i'w chwarae yn ein bywydau o hyd. Ond er mwyn iddyn nhw wneud hynny, fy marn i yw bod angen eu hailddehongli mewn modd go radical*."

"*Man cychwyn yr ailddehongliad, fel y gwelaf i bethau, fyddai cydnabod nad a ffeithiau yr ydyn ni'n delio wrth ymwneud â chrefydd*."

"*Myth hanesyddol cenedl y Cymry, myth ein gwareiddiad gorllewinol ni, a ymledodd drwy gyfuniad o oresgyn a gwasanaethu cenhadol drwy'r byd, yw Cristnogaeth. Mae ynddi, o'i gwir-ddehongli a'i haddasu, a heb iddi hawlio unrhyw awdurdodd unigryw, y gwerthoedd a'r chwedlau a'r doethinebu cronedig i gynnig arweiniad yn y trawsnewidiad y mae'n rhaid wrtho yn yr 21ain ganrif.*"

Ar ateb, yn ol yr awdur, ydi "*Diwygiad*" a "*Christnogaeth Newydd*"! *Talu parch i reswm…a meddwl clir…hyfforddi … ynghylch gwyddor ecoleg a chynaliadwyedd…i gymhwyso'r rheini i'w bywydau personol a chymdeithasol…meithrin osgo o ryfeddod…gostyngeiddrwydd…meithrin diolchgarwch a'r sylweddoliad mai rhodd yw popeth sy'n eiddo i ni – yn alluoedd, yn ddoniau, yn gryfder corfforol…gofal dros yr anffodus ac ymroddiad ysol i gywiro'r camwri sy'n ein llethu…ymrestru ac ymdrechu o blaid Cydymdeimlad…*"

Profwch a darllenwch!

## EGLWYS DEWI SANT

**Gwasanaethau**

Ers dechrau mis Medi, bu gwasanaeth yn yr eglwys bob bore Sul am 10:30.

Cynhelir y ddau wasanaeth trwy bodlediad, un yn y bore ac un gyda'r hwyr ar y Sul o hyd er bod gwasanaethau yn yr eglwys ei hun ac rydym yn ddiolchgar iawn am y gwaith a'r cyfraniadau, yn enwedig gan y Ficer a Ieuan, a olyga ein bod yn derbyn y podlediadau gwerthfawr hyn ac wedi gwneud, am ddeunaw mis.

Wedi gwyliau'r haf, ailddechreuwyd y gwasanaeth aml-oed misol am 10:30 ar yr ail Sul yn y mis.

**Côr yr Eglwys**

Ailgychwynwyd ymarferion y côr a byddant yn canu yn y gwasanaeth boreol am 10:30 o'r 3ydd. o fis Hydref.

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cydymdeimlad at Robert a Siân, mab a merch y diweddar Sally Lewis.

**Coffi a Chlonc**

Ar y 18fed o Fedi bu cyfarfod rhithiol o Coffi a Chlonc unwaith eto wedi gwyliau'r haf. Bydd y nesa am 10:30 fore Sadwrn y 16eg o fis Hydref.

**Agor yr Eglwys**

Mae'r eglwys ar agor bob bore Mercher o 11:00 tan 1:00, ar ôl y gwasanaeth canol-wythnos.

**Gofal ein Gwinllan**

Bu dau anerchiad tros Zoom yn yr ail gyfres o sesiynau a drefnwyd gan Yr Eglwys yng Nghymru i edrych ar gyfraniad yr Eglwys i iaith, hanes a diwylliant Cymru.

Edrychodd y Parchedig Athro Densil Morgan ar 'Griffith Jones Llanddowror a'r S.P.C.K.' a'r Dr Eryn White yn ystyried 'Cyfraniad y Chwiorydd; Menywod yn yr Eglwys Anglicanaidd yn y 18fed. ganrif.'

**Gwasanaethau mis Hydref**

3 - 8:00am Y Cymun Bendigaid
10:30am Y Cymun Bendigaid
6.00pm Yr Hwyrol Weddi
10 - 8:00am Y Cymun Bendigaid
10:30am Gwasanaeth aml-oed
6.00pm Yr Hwyrol Weddi
17 - 10.30am Y Cymun Bendigaid
24 - 8:00am Y Cymun Bendigaid
10:30am Y Cymun Bendigaid
31 - 10:30am Y Foreol Weddi
6.00pm Y Cymun Bendigaid

Mae nifer y seddi sydd ar gael yn parhau'n gyfyngedig ac felly rhaid rhoi gwybod i Ysgrifennydd y Cyngor Plwyfol Eglwysig am y bwriad i ddod i'r gwasanaeth.

## SALEM, TREGANNA

**Oedfaon**

Hyfryd yw bod nôl yn y capel, ac mae ein hoedfaon yn parhau yn hybrid gyda Zoom ar Sul cyntaf a thrydydd Sul y mis. Cofiwch gysylltu os hoffech ymuno â ni neu os hoffech linc i'r gwasanaeth Zoom. Gwnaed casgliad yn ystod yr oedfaon ym mis Medi tuag at gronfa Haiti.

**Clwb y Bobl Ifanc**

Ar 24 Medi cyfarfu'r clwb am y tro cynta yn y festri, gyda chroeso arbennig i oed blwyddyn 7, i gael DVD a sglods, ac i drafod taith eleni.

**Llongyfarchiadau i Evan**

Dymunwn longyfarch Evan ein Gweinidog yn fawr, wedi iddo gael ei arwisgo yn Seilo, Caernarfon ddiwedd Medi fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2021-2022. Braf oedd bod y cyfan yn hybrid fel bod aelodau ar draws Cymru yn gallu ymuno. Dymunwn bob dymuniad da iddo yn ei waith eleni yn y rôl arbennig hwn.

**Cymdymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn fawr â theulu Roger Boore yn eu colled. Rydym yn meddwl amdanoch Anne, a'r teulu Gwilym, Rhys ac Alun a'u teuluoedd ar hyn o bryd.

**Llongyfarchiadau a phob lwc!**

Rydym yn awyddus i longyfarch ein hieuenctid ar eu llwyddiannau eleni yn eu cymwysterau, ac yn dymuno'n dda iddynt wrth iddynt fynd i'r cam nesaf wrth fynd i golegau, prifysgolion a'r byd gwaith. Cadwch mewn cysylltiad!



## BETHEL, RHIWBEINA

Ar ôl seibiant ym mis Awst, ail-ddechreuodd y gwasanaethau yn y capel ar fore Sul Medi'r 12fed. Roedd y gwasanaeth cymun yng ngofal ein gweinidog y Parchg Evan Morgan. Bellach does dim angen ffonio i gadw lle a braf oedd gweld cynifer yng ngwasanaeth cyntaf y tymor. Yn ystod y mis cawsom hefyd y cyfle i groesawu i'r pulpud y Parchg Dafydd Owen a'r Parchg Eirian Rees. Ar Sul cyntaf Hydref cawn gwmni'r Parchg Aled Edwards.

Ar ddydd Mawrth Medi 21 yng nghapel Seilo, Caernarfon mewn gwasanaeth arbennig, derbyniwyd Evan i'w swydd newydd fel Llywydd yr Eglwys Bresbyteraidd. Roedd cyfle i wylio'r gwasanaeth yn rhithiol hefyd. Rydym yn ei longyfarch ac yn dymuno'n dda iddo yn ei waith dros y flywyddyn nesaf.

Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â Sue Urwin a gollodd ei thad yn ystod y mis diwethaf.

Yn ystod yr Haf clywsom y newyddion bod un o'n haelodau ffyddlon, Anna-Lisa Jenaer yn mynd i symud i'r Alban. Erbyn hyn mae hi wedi ymgartrefu ar un o ynysoedd Erch. Dymunwn yn dda iddi hi a'i theulu yn eu bywyd newydd a chyffrous.

## EGLWYS TEILO SANT

Roedd hi'n hyfryd cael dod ynghyd ar Fedi'r 26ain i glywed yr Offeren yn Eglwys Teilo Sant. Mor braf oedd cyfarfod â chyfeillion hen a newydd a ddaeth i addoli ar brynhawn o haul cynnes. Dyma weld yr hen drefn yn cael ei hadfer ar ôl cyfnod o ddeunaw mis heb Offeren yn Gymraeg yng Nghaerdydd. *Deo Gratias* yn wir.

Cawsom groeso cynnes gan offeiriad newydd y plwyf, y Canon John Griffiths, sydd wedi symud yno ar ôl marwolaeth y Canon William Isaac. Y Tad Peter Davies oedd yn llywyddu ac fe gafwyd pregeth berthnasol gan y Parchedig Ddiacon Elfed Jones yn ein hatgoffa am yr angen i fod yn gynhwysol, ar sail hanes Eldad a Medad yn Llyfr Numeri. Mae llif byw pedair awr ar hugain ar wefan yr eglwys, felly mi fydd cynulleidfa ehangach yn gallu ymuno â ni o hyn ymlaen.

Bydd yr Offeren ar Zoom yn parhau ar Sul cyntaf y mis nawr. Ar Fedi'r 5ed cafwyd Offeren yr Hinsawdd, gyda'r gweddïau perthnasol. Cawsom ein hatgoffa o'n dyletswydd i ofalu am greadigaeth Duw a gwneud popeth posib i'w warchod er lles pawb. Cawsom ein hannog gan y Tad Allan i weddïo'n ddyfal yn y cyfnod cyn Cynhadledd Cop 26 yn mis Tachwedd, er mwyn i arweinwyr y byd ddod i sylweddoli maint eu cyfrifoldeb dros les pawb o drigolion y ddaear a pha mor bwysig yw gweithredu i wella'r sefyllfa.

Dyma ddyddiadau'r Offeren ym mis Hydref:

3 - 11.00 Offeren Zoom a'r Esgob Edwin Regan yn llywyddu.

31 - 4.30 Offeren Caerdydd yn Eglwys Teilo Sant, yr Eglwys Newydd CF14 1AD

Cyswllt: carys@caerdelyn.com

***Llun ar y chwith: Y Parchg Evan Morgan yn cael ei urddo'n llywydd Cymanfa Gyffredinol EBC yn Seilo, Caernarfon***


## TIWTOR MATHEMATEG

**Tiwtor graddedig llwyddiannus iawn gyda dros 30 mlynedd o brofiad dysgu Mathemateg i fyfyrwyr o 11 oed hyd TGAU a Safon Uwch.**

Cynigir cyrsiau adfer arbennig i fyfyrwyr sydd wedi dioddef o ran eu cynnydd Mathemategol yn ystod y cyfnod clo. Defnyddir **Zoom** ar hyn o bryd ond cynhelir y gwersi yn **Penylan** fel arfer.

Manylion pellach:
Gwilym Wyn **07968 463 737**
neu serenagwill@btinternet.com

# Cwmni'r Dysgwyr

*Pob dymuniad da i'r dysgwyr wrth ail-gydio yn y gwersi*



## Gwilym Dafydd

**Amser Jôc gyda Huw James**

Dai ac Ianto

Roedd Dai ac Ianto wedi bod i wylio Cymru yn chwarae Lloegr yn Twickenham ac yn dychwelyd adref. Roedd hi'n noson Ionawr wlyb a gwyntog. Roeddent newydd basio'r arwydd ar gyfer Gwasanaethau Leigh Delamere ar yr M4 pan sylwodd Dai fod y dangosydd tanwydd yn fflachio'n wag. Roedd y gwasanaethau nesaf 35 milltir ymhellach ymlaen, felly penderfynon nhw adael y draffordd a chwilio am orsaf betrol. Yn ddigon rhagweladwy, ni ddaethon nhw o hyd i un cyn i'r car ffrwtio i stop mewn cilfan oddi ar lôn wledig gul. Roedd hi'n arllwys i lawr yn drwm felly penderfynon nhw chwilio am gysgod lawr y lôn. Ar ôl tua hanner milltir fe wnaethon nhw weld tŷ fferm â golau mewn ffenestr llawr uchaf ar draws sawl cae wedi'u haredig. Felly i ffwrdd â nhw - yn fuan ron nhw hyd at eu fferau mewn mwd.

Fe gyrhaeddon nhw'r tŷ a churo wrth y drws sawl gwaith. Yn y diwedd agorodd y ffenestr uchaf wedi'i goleuo ac ymddangosodd wyneb - dynes o'r wlad yn ei phumdegau. Fe wnaethant egluro'r sefyllfa a gofyn am loches am y noson. Ond roedd hi'n amharod iawn i'w gadael i mewn.

"Rhaid i mi feddwl am fy enw da," esboniodd. (Wel, roedd hi'n 1959.) "Rwy'n ddynes ddibriod ac wedi byw ar fy mhen fy hun yma ers i'm rhieni farw ... ac nid wyf yn eich adnabod chi o Adda...gallech chi fod yn unrhyw un."

Ond fe bledion nhw ac fe ildiodd hi yn y diwedd. Gadawodd iddynt ddod i mewn, ond ar y dealltwriaeth llym y byddai hi'n aros ar y llawr cyntaf ac roeddent wedi'u cyfyngu'n llwyr i'r llawr gwaelod. Felly aeth y noson heibio a'r bore canlynol modurodd Dai ac Ianto adref.

Naw mis yn ddiweddarach daeth Dai rownd i dŷ Ianto am air.

"Ianto," meddai, "Rwyt ti'n cofio mynd i Twickenham."

"Ydw, Dai."

"Rwyt ti'n cofio'r car yn torri i lawr."

"Ydw, Dai."

"Rwyt ti'n cofio i ni aros yn y tŷ fferm hwnnw."

"Ydw , Dai."

"Rwyt ti'n cofio ein bod ni i fod i aros ar y llawr gwaelod."

"Wel ydw, Dai." Roedd Ianto yn dechrau edrych ychydig yn ddigywilydd.

"Wnest ti ddim, Ianto?"

"Na, Dai."

"Na Ianto, wnest ti ddim. Fe est ti i fyny'r grisiau, ond do… a ti ……… wel ti'n gwybod. "

"Wel, mewn gwirionedd, ydw Dai."

"Ac yn fwy na hynny, Ianto, wnest ti roi fy enw iddi."

"Wel … er… ..um … sori Dai… .. ond do, fe wnes i."

"Wel diolch yn fawr iawn, Ianto. Mae hi newydd farw ac wedi gadael y fferm i fi."

**Caffi BLOC Parc Fictoria**

Diolch i Branwen Dickson, Cyngor Celfyddydau Cymru, am awgrymu basai diddordeb gan y perchnogion i werthu copiau o'r *Dinesydd*. Mae Bloc yn boblogaidd gyda nifer o siaradwyr Cymraeg. Es draw yno un prynhawn Iau wedi Clonc siaradwyr Cymraeg newydd yn y Castell rhwng 1 a 2 o'r gloch a chael sgwrs fach gyda Caradog, un o'r staff sy'n medru'r Gymraeg. Ers hynny rydw i wedi cael gair gydag Alex, un o'r perchnogion a gadarnhaodd eu bod nhw'n gefnogol i'r iaith. Newyddion da felly: bydd copiau o rifyn mis Hydref ar werth yno.

**Am dro i Sir Benfro**

Ydych chi wedi mwynhau gwyliau yn Sir Benfro eleni? Mae'n siwr bod rhai ohonoch wedi teithio i'r Gorllewin. Cawson ni wythnos hyfryd yno, 18-25 Medi, a'r tro hwn ein cartref dros dro oedd Y Bwthyn, drws nesaf i hen ffermdy Garnllys, rhyw filltir i'r dwyrain o bentref Tremarchog. Hen ysgubor yw'r Bwthyn ac ymwelwyr fel ni'n dau wedi aros yno ers o leiaf 1992. Buom yn cerdded ar rai o lwybrau arfordir Gogledd Sir Benfro am y tro cyntaf yn ein hanes.

Dyma ambell un o'r uchafbwyntaiu: cychwyn un daith o garreg goffa'r bardd Dewi Emrys ym Mhwll Deri, 69 o flynyddoedd wedi ei farwolaeth, fel mae'n digwydd, 20 Medi 1952. Bore Llun heulog a chynnes a gweld goleudy enwog Strumble Head / Pencaer yn dod yn agosach ar ein taith gerdded.

Yna'r bore Mawrth, parcio ym mhentref bach tlws Cwm yr Eglwys gafodd peth sylw yn gynharach eleni ar y cyfryngau – bron pob cartref yno bellach yn dŷ haf.




Cerdded wedyn i'r cyfeiriad gorllewinol – mae hi'n werth yr ymdrech i gyrraedd copa Pen Dinas lle medrir edrych i sawl cyfeiriad am filltiroedd a'r golygfeydd, afraid dweud, yn arbennig ar ddiwrnod braf.

Daeth bore Gwener a theithio ymhellach i gyfeiriad Aberteifi. Llwyddo yn y diwedd i ddarganfod hen gapel Bedyddwyr Cilfowyr, rhyw ddwy filltir o Lechryd, allan yn y wlad a heolydd culion. Ron i wastad wedi credu taw ym mynwent y capel y claddwyd Anti Mary, Castellnewydd Emlyn nôl yn 1980 – ond doedd dim golwg ohoni! Bydd rhaid cael golwg arall ar y fynwent gyhoeddus ger Castellnewydd Emlyn yn ystod y misoedd nesaf.

## Pobol y Rhigwm

Croeso eto i gornel Pobol y Rhigwm.  Y dasg i'r rhigymwyr y tro diwethaf oedd: limrig yn cynnwys y llinell 'Rwy'n hedfan i ___ y mis nesa'.  Daeth cannoedd o gynigion i law, ond does dim lle i gynnwys mwy na'r gerdd fuddugol y tro hwn.  Dyma'r limrig a ddaeth i'r brig:

Amore!
Wel, gan bo chi'n mynnu busnesa,
Rwy'n hedfan i Rufain mis nesa',
ac er bod hi'n graig
o arian, y wraig,
Rwy'n gadael Y Ddraig am Vanessa.

*Carpe Diem*

Hoffais y ffugenw a'r teitl, yr odli dwbl a'r odl gyrch… Mae ôl crefft ar y limrig hwn.  A dweud y gwir, mae doniolwch y limrig yn tarddu o'r odli'n fwy na'r jôc ei hun.  Limrig i'w glust yw hwn yn sicr, ac mae'n llawn haeddu'r wobr a'r clod a berthyn iddi.

Diolch felly i Carpe Diem ac i'r cannoedd eraill a fu'n cystadlu.

Gan fy mod i'n diolch, ga'i ychwanegu at y thema drwy ddiolch yn fawr i Bryan James, a fu'n trefnu cornel Pobol y Rhigwm am flynyddoedd gan anfon y cynigion yn daclus at sylw'r beirniad.  Mae wedi gorfod rhoi'r gorau iddi'n ddiweddar, felly mae'n briodol diolch am ei holl lafur:

**Enillydd tasg rhif 46 yw**
**Emlyn Williams, Trelluest**

### Diolch i Bryan James

Y mae ein diolch bob man – i 'chydig
Warcheidwaid y winllan;
Nhw yw'r rhai sy'n gwneud eu rhan
Yn eu bröydd – fel Bryan.

Gan fy mod innau wedi dychwelyd i'r gorllewin i fyw, mae'n briodol hefyd fy mod i'n trosglwyddo cornel Pobol y Rhigwm i ddinesydd sy'n byw yn y brifddinas. Hoffwn felly ddiolch i'r rhai a fu'n cystadlu'n gyson ar hyd y blynyddoedd gan godi gwên, a chan wneud gwaith tafolwr yn bleser. Pob dymuniad da i'r *Dinesydd* a'i ddarllenwyr, a phawb sy'n gwneud y papur yn bosib. Os byddwch chi yn ne Ceredigion am dro, cofiwch alw!

*Emyr Davies*

---

**Rhaid rhoi diolch hefyd i Emyr Davies am ei holl waith gyda cholofn Pobol y Rhigwm ers i'r golofn gychwyn rai blynyddoedd yn ôl bellach.**

**Bu crŷn dipyn o gystadlu dros y blynyddoedd diwethaf a daeth y limrigau, y tribannau, y penillion ac ambell i englyn a gwên i wynebau llawer ohonom. A bu i nifer ddysgu mwy am y dasg o farddoni trwy sylwadau craff Emyr.**

**Diolch o galon iddo felly am ei waith ac mae'r *Dinesydd* yn dymuno pob bendith iddo wrth iddo ail-gartrefu yn y gorllewin. Diau y daw ysbrydoliaeth iddo am gerddi wrth gerdded ger y môr.**

**Bydd Pobol y Rhigwm yn ôl gyda bardd newydd wrth y llyw yn fuan.**

## Cymrodorion Y Barri

**Noson yng nghwmni Tim Hartley**

Wedi'n mygydu hyd at ein clustiau, ac yn eistedd bellter parchus oddi wrth ein gilydd, yn betrusgar fe fentron ni, Gymrodorion y Barri, am y tro cyntaf ers blwyddyn a hanner, i gwrdd yn y cnawd yng Nghanolfan Palmerston.

Ein siaradwr oedd yr awdur, y newyddiadurwr a'r ymgynghorydd Tim Hartley, un o blant y Barri ac un o ddisgyblion cyntaf Ysgol Gymraeg Sain Ffransis y Barri. Roedd e'n hynod ddiolchgar fod ei rieni di-Gymraeg wedi mentro i ddanfon eu plant i'r ysgolion Cymraeg. Aeth Tim ymlaen i Ysgol Rhydfelen ac i Brifysgol Aberystwyth - *finishing school* Rhydfelen yn ôl Tim.



Roedd ei gyn-athrawes Eleri Hourahane yn ei gofio fel bachgen bach yn llawn direidi ac antur.


Pêl-droed yw dileit Tim, gêm sydd wedi ei dywys i bedwar ban byd. Cred yn gryf fod y gêm yn fodd i fagu hyder mewn pobl ifanc ddifreintiedig.  Yn ei lyfr *Merci Cymru* mae'n dathlu llwyddiant tîm pêl-droed Cymru ym mhencampwriaeth Ewro 2016. Roedd y gystadleuaeth wedi rhoi Cymru ar y map, a rhoi hyder i'r dilynwyr yng ngallu Cymru i lwyddo, meddai.


Llyfr arall mae Tim wedi lansio yn ddiweddar yw *Kicking off in North Korea* – sef dyddiadur taith am bêl-droed yng Ngogledd Korea, Brasil ac Ewrop.

Tim oedd y Pennaeth Newyddion cyntaf i'r Cynulliad, a chredai fod diffyg gweledigaeth a strategaeth wedi cadw'r Cynulliad yn ei unfan, yn hytrach nag ymestyn a thyfu. Bu hefyd yn lobïwr dros S4C yn y Senedd, ac yn ran o'r gweithgor a fu'n cynghori S4C i fynd dan faner y BBC.

Bydd cyfarfod nesaf y Cymrodorion ar Hydref 19eg yn Llyfrgell y Barri am 7.00yh; sef noson bontio i'r dysgwyr gyda Janet Tabor a Rhiannon Norfolk.

## Rhif: 217



### Ar Draws

1. 'Arglwydd Iesu. ----- im gerdded
   Trwy y byd yn ôl dy droed' (HEL) (4)
8. '----- ----- yr ymrwygodd
   Holl ffynhonau'r dyfnder mawr' (WR) (2,8)
9. A oes cweryla am ddim yma? (8)
10. Arwyddo onid e! (4)
12. Safle ar ddechrau'r Sul i ran o'r cinio (6)
14. Y chwedl am ddod adre (6)
15. Ffwdan y Sbaeneg yn y cwrs (6)
17. Gwerin anystywallt. Dyna galed (6)
18. Yn gyflym yn wynebu anhawsterau (4)
19. Y pryd cyntaf i doddi caws Treb (8)
21. Ceir blewyn gwyrdd allan o sawl llyn teg (10)
22. Cadw'n gyfrinachol pen cerddor eisteddfod leol unigryw (4)

### I Lawr

2. Gwneud dy nyth (10)
3. 'Mae yn y ----- oleuni glân –
   O! f'enaid, cân amdano' (RJ) (4)
4. Cael aeron mewn finegr o Estonia (6)
5. Teimlo a'r glust (6)
6. Un yn gwerthu naw march gwyllt oddeutu diwedd y mis (8)
7. Yn dawel daw asbri ar yn ail i flodeuo'n goch (4)
11. 'Gwynt yr hydref ruai neithiwr
    Crynai'r ----- ----- -----' (WCW) (4, 1'1,4)
13. 'Trugaredd a hedd sy'n -----;
    Mae undeb rhwng nefoedd a llawr'(MR) (8)
16. Llechen i'w llyncu (6)
17. Cael llety yng nghartre'r pry cop a'r mochyn yn Lloegr (6)
18. Sach i bum deg ffon (4)
20. Gwaith Nic ar yn ail drosodd mewn amrantiad (4)

**Enillydd Croesair Rhif 215**

**Rhodri Jones, Penarth**

**Atebion Croesair Rhif 215**

**Ar Draws** 1. Dagr 3. Cydymaith 8. Real 9. Cawr 10. Bom 12. Yno mae ar sail 14. Tradwy 15. Anadlu 18. Fy ymguddfa mwy 21. Eog 22. Lois 23. Cnwc 24. Esgusodi 25. Gloch

**I Lawr** 1. Dirwystr 2. Gwaddota 4. Ymatal 5. Ymryson Efe 6. Asbri 7. Thema 11. Tatws melys 13. Cudyll coch 16. Dymunol 17. Curiad 19. Ysgog 20. Wele

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams
erbyn 5 Tachwedd 2021
22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6AN

## Ioan Fedyddiwr a phlant Ysgolion Cynradd Cymraeg Caerdydd!

Rydym i gyd yn disgwyl i'n plant ddweud diolch, ond yn ystod cyfnod Diolchgarwch yr Hydref eleni bydd y seleb Ioan Fedyddiwr yn arwain disgyblion Ysgolion Cymraeg Caerdydd nid yn unig i ddiolch i Dduw am fwyd ac angenrheidiau bywyd, ond hefyd i rannu ag eraill.

Sut?

Trwy gyflwyniad ffilm y mae tîm Agor y Llyfr Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd wedi ei pharatoi i'w hanfon i'r ysgolion. Beth oedd neges Ioan? – *rhaid i chi edifarhau, ymwrthod â'r pethau drwg rydych chi wedi bod yn eu gwneud, a gwneud pethau da yn lle hynny.* Pan ofynnodd y bobl *Beth ddylem ei wneud?* rhoddodd Ioan yr ateb – *os oes gennych chi ddwy gôt, peidiwch â chadw'r ddwy i chi eich hun. Rhowch un i rywun sydd heb yr un gôt o gwbl. Ac os oes gennych chi ddigonedd o fwyd, peidiwch â'i fwyta i gyd eich hyn, rhannwch ag eraill.*

Trwy'r ffilm fer hon daw'r disgyblion i ddeall beth yw cyfiawnder ac anghyfiawnder, a beth yw gwaith y Trussell Trust yn trefnu banciau bwyd ar gyfer pobl sydd heddiw yn dioddef anghyfiawnder ac yn cael bywyd yn anodd.

Bwriad cynllun Agor y Llyfr yw cyflwyno hanesion y Beibl mewn ysgolion trwy actio'r stori ac yna rhoi cyfle i'r disgyblion feddwl am arwyddocâd y stori iddyn nhw, ac (os ydyn nhw'n dymuno) i gyflwyno gweddi fer. Oherwydd cyfyngiadau Covid bu'n rhaid troi at gyflwyniadau ffilm yn hytrach nag ymweld ag ysgolion mewn person, ond yr un ydy'r hwyl a geir wrth baratoi gwisgoedd a props. Ein bwriad nawr yw paratoi cyfres o ffilmiau yn cyflwyno rhai o ddamhegion Iesu.
Cewch fwy o wybodaeth ar www.biblesociety.org.uk/cymru/agor-y-llyfr/
www.trusselltrust.org

# Gwylio'r Geiniog



## Huw Aled Accountants

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth am gyfraddau newydd Yswiriant Gwladol (YG), dyma grynodeb o'r newidiadau a'u heffaith ar unigolion.

1. O Ebrill 2022, bydd cyfraniadau YG yn cynyddu 1.25% ar gyfer gweithwyr, cyflogwyr a'r hunangyflogedig.

Mae'r £9,568 cyntaf o enillion wedi'u heithrio rhag Yswiriant Gwladol.

Bydd unigolyn sy'n ennill £25,000 y flwyddyn yn talu £192 ychwanegol o YG, tra bydd unigolyn sy'n ennill £70,000 y flwyddyn yn talu £755 yn ychwanegol o YG.

2. O Ebrill 2023, bydd yn rhaid i bensiynwyr sy'n gweithio dalu 'Ardoll Iechyd a Gofal Cymdeithasol' o 1.25% ar eu henillion (ond nid ar eu hincwm pensiwn).

I'r rhai sy'n 66 oed neu'n hŷn, dim ond 1.25% byddwch chi'n ei dalu ac ni fydd yn ofynnol i chi dalu unrhyw Yswiriant Gwladol pellach.

3. O Ebrill 2022, bydd unigolion sy'n derbyn difidendau o dros £2,000 y flwyddyn yn talu 1.25% ychwanegol o dreth. Mae hyn yn effeithio ar gyfarwyddwyr cwmnïau sy'n talu eu hunain yn bennaf trwy ddifidendau.

Os ydych chi'n derbyn difidendau o £50,000 y flwyddyn byddwch chi'n talu treth ychwanegol o £600.

Mae hyn hefyd yn effeithio ar unigolion sydd â phortffolios cyfranddaliadau mawr.

**Cwestiynau Huw ac Aled:** *Mae fy mam oedrannus yn dangos arwyddion o ddementia. Mae hi'n ystyried ceisio am Atwrneiaeth ('Power of Attorney') ond mae'n poeni y gallai fod yn rhy hwyr.*

Mae dau fath o Atwrneiaeth, sef Ariannol ac Iechyd. Mae'r rhain yn caniatáu i aelodau teulu dibynadwy / ffrindiau agos / gweithwyr proffesiynol i ofalu am faterion unigolyn sydd yn colli eu gallu meddyliol. Er mwyn gwneud cais am Atwrneiaeth, mae'n rhaid fod gan yr unigolyn allu meddyliol i lofnodi'r ffurflen.

Os bydd hi'n gohirio i gwblhau'r cais ac yn colli ei gallu meddyliol, yr unig ddewis arall yw gwneud cais i'r Llys Gwarchod am Orchymyn Dirprwyaeth (*Deputyship Order*) i ofalu am ei hasedau ariannol a'i lles. Mae hyn yn llawer mwy costus a llafurus. Wrth symud ymlaen, byddai angen paratoi cyfrifon blynyddol yn manylu ar incwm a gwariant eich mam.

Y cyngor cyffredinol yw gwneud cais am Atwrneiaeth yn gynnar pan fydd gan rywun allu meddyliol llawn. Cysylltwch â ni os ydych am drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud ag Atwrneiaeth.

Os ydych chi'n poeni am effaith treth etifeddiaeth ar bortffolio arian digidol, cysylltwch â ni.

*Am fwy o fanylion, cysylltwch â ni drwy: www.huwaledaccountants.com neu 029 2069 4524.*

---

## Y DIGWYDDIADUR MIS TACHWEDD

### TACHWEDD

**Mercher, 3 Tachwedd**

Merched y Wawr, Bro Radur. Sgwrs gan Carys Huws, pan fydd yn rhannu ei hanes ym myd ffotograffiaeth a ffilm a'i phrofiad o fyw yn ninas Berlin. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach, cysylltwch â Gwen Emyr (gwen.emyr@gmail.com; 029-2084-8545) neu Shirley Williams (shirleywilliams642@gmail.com; 029 -2061-5243).

**Sadwrn, 6 Tachwedd**

Mae'r Clwb Gwylio Adar yn cyfarfod ar fore Sadwrn cyntaf bob mis. Am fanylion ynghylch amser a lleoliad, cysylltwch â Gwilym Dafydd (eirianagwilym@gmail.com; trydar @GwilymDafydd). Croeso cynnes i bawb.

**Iau, 11 Tachwedd**

Cylch Cadwgan. Rhys Dafis, Ysgrifennydd Barddas, yn siarad am ei ddosbarthiadau barddoniaeth. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am fanylion pellach, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, y Prifardd Glenys Roberts (groberts@btinternet.com).

**Iau, 18 Tachwedd**

Menter Caerdydd. Sgwrs gan Dr Simon Brooks ar y testun 'Amlethnigrwydd ym mywyd Cymraeg Caerdydd'. Am 7.30pm trwy gyfrwng Zoom. Am ddim. Am fanylion pellach, cysylltwch â Rachel Matthews (rachel@mentercaerdydd.cymru).

**Gwener, 19 Tachwedd**

Cylch Llyfryddol Caerdydd. Holi Megan Angharad Hunter, enillydd Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021, am ei nofel arobryn, *tu ôl i'r awyr.* Am 7.00pm trwy gyfrwng Zoom. **Croeso cynnes i bawb. Am fanylion pellach a'r ddolen Zoom**, cysylltwch â'r Athro E. Wyn James (JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**Anfonwch fanylion ar gyfer y Digwyddiadur at Yr Athro E. Wyn James manylion cysylltu ar dud. 2**

# Cofio Magi Dodd

## gan
## Lowri Haf Cooke

Ganed Magi Dodd ar yr 8ed o Fawrth, sef Diwrnod Rhyngwladol y Merched. A sôn am ferch a hanner, a roddodd lwyfan i gynifer – doedd neb tebyg iddi am fagu hyder mewn pobol eraill. Fel cyflwynydd, fel ffrind gorau, roedd ganddi'r ddawn i daenu'i golau wrth eich croesawu i fyd o heulwen a direidi. *'Cookie!,* glywn i'n aml cyn derbyn coflaid fawr gynnes – roedd enw annwyl ganddi i bawb yn ei bywyd. Feiddiwn i fyth â'i dwyn o'r Cymoedd wrth ei galw'n 'ferch y ddinas'; Pontypridd a hawliodd galon y frenhines. Ond am flynyddoedd, roedd sain ei sodlau (a'i sgidiau rhedeg) i'w clywed ar balmentydd y Brifddinas – o Landaf a'r Bae i Dreganna a Threlluest.

Roedd hi'n hoff iawn o gerdded ac fe ddaliai'r bws yn hytrach na gyrru, ac yn wahanol i nifer o'i chenhedlaeth, tueddai i osgoi'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd yn well o lawer ganddi sgwrsio wyneb yn wyneb â phobl, a blaenoriaeth Magi ar bob achlysur oedd gwneud i eraill deimlo'n gyffyrddus. Deilliodd hyn o'i magwraeth gadarn ar aelwyd gynnes yng Ngraigwen, Pontypridd, yn chwaer fach i Beth ac yn ferch i Mair a Gerald. Ymfalchïai yn ei haddysg yn Ysgol Gynradd Pont Siôn Norton ac Ysgol Rhydfelen, a graddiodd yn y Gymraeg o Brifysgol Cymru, Aberystwyth cyn cymhwyso fel athrawes. Treuliodd gyfnod hefyd yn gweithio gydag Urdd Gobaith Cymru – roedd hi'n arbennig o dda gyda phlant a phobol ifanc – cyn ffeindio'i llais fel cyflwynydd o fri ar BBC Radio Cymru.

Soniodd Magi ei hun, ar deledu cyhoeddus, nad oedd ei swydd gyntaf yn adran Newyddion y Gorfforaeth cweit yn siwtio'i phersonoliaeth. Roedd hi'n hoff iawn o'i chwsg, ac felly nid oedd y shifftiau cynnar am 4 y bore yn apelio ati ryw lawer! Ffit perffaith, fodd bynnag, oedd ei hapwyntiad fel ymchwilydd Radio Cymu, yna cyflwynydd ar wasanaeth nosweithiol C2. Amlygwyd ei doniau ar y tonfeddi; ei sgiliau darlledu naturiol, ei dealltwriaeth o bobol, ei ffraethineb rhyfeddol a'i chariad angerddol at gerddoriaeth o bob math. Cydweithiodd â degau o gyflwynwyr, peirianwyr sain ac ymchwilwyr, ac mi deithiodd hi Gymru benbaladr yn cenhadu dros yr iaith trwy gyfrwng rhaglenni cerddoriaeth. Ymhen dim, datblygodd hi'n gynhyrchydd radio disglair; ymysg y prosiectau yr oedd hi'n fwyaf balch ohonynt oedd y rheiny a roddodd gyfleoedd i blant a phobol ifanc gael hwyl yn yr iaith Gymraeg – *Taith Ysgolion* a chyfres *Cwis Pop* i enwi ond dau. Ac roedd hi a'i *flashmic* a'i chlustffonau, ei siwtcesys niferus a'i gwisgoedd gorau yn bresenoldebau cyson mewn sioeau, gigs ac eisteddfodau.



***Magi Dodd a Lowri Haf Cooke***


Ro'n i wrth fy modd pan glicion ni'n dwy yn ein hugeiniau cynnar yn swyddfa Radio Cymru yn Llandaf. Roedd ganddi nifer o ffrindiau clos, o bob cam o'i bywyd, ac roedd hi'n gyfaill triw ac annwyl i ni gyd. Mi gofiai nosweithiau yng Nghlwb Ifor, chwerthin mawr nes ein bod yn brifo, a'i deallusrwydd craff fel clust i wrando. Cyd-gerddom gannoedd o filltiroedd gan roi'r byd yn ei le... pe bai waliau hynafol y ddinas yn gallu siarad mi fydde na le! Mi golla i'r sgyrsiau ym marchnad Ponty, y llu o gardiau cyfarch ganddi. Ond yn fwy na dim fe golla i ei chwmni.

Yn seren ddisglair a deallus, roedd hi'n arwres o ddynes, ac yn gawres o Gymraes. Rydw i'n meddwl am ei dyweddi, Aled, a'i theulu, a'i holl ffrindiau ledled Cymru yn eu galar amdani. Ges i anrheg pen-blwydd ganddi rhyw fis yn ôl; poster retro trawiadol o ynys Kefalonia, er cof am wyliau hyfryd gawsom yno yn 2012. Dyna Magi mewn darlun; hael a heulog, lliwgar a llawen. Mi gofiai di Magi am byth gyda chariad a gwên.

**Cadwch mewn cysylltiad â'r *Dinesydd* ar Twitter drwy ddilyn ein cyfrif newydd @DinesyddCdydd**
**ac ar Facebook trwy ddilyn www.facebook.com/YDinesydd**

# Llyfrau Broga yn cyhoeddi llyfrau newydd i ddarllenwyr ifanc

Gwasg sy'n canolbwyntio ar gyhoeddi llyfrau i blant a phobl ifanc ydi Llyfrau Broga. Cafodd ei sefydlu gan Luned a Huw Aaron - pâr priod yn Yr Eglwys Newydd sydd wedi creu amryw o gyfrolau i blant dros y blynyddoedd diwethaf.




Yn ddiweddar, cyhoeddwyd tri llyfr comic gan dri awdur gwahanol dan faner Llyfrau Broga: *Yr Allwedd Amser* gan Ben Hillman, *Rali'r Gofod 4002* gan Joe Watson a *Gwil Garw a'r Carchar Crisial* gan Huw Aaron. Tair stori gyffrous sydd yma ac mae'r wasg yn grediniol fod llyfrau comics yn ffordd wych o ddenu darllenwyr anfoddog neu anhyderus.

Yn awr, mae cyfres hynod gyffrous ar fin cael ei lansio gan Llyfrau Broga, sef *Enwogion o Fri*. Dyma gyfres hardd a lliwgar sydd wedi ei hanelu at gynulleidfa ifanc, oddeutu 3-7 oed, a fydd yn cyflwyno rhai o enwogion Cymru i blant, a hynny ar ffurf Llyfrau Gair a Llun.

Bydd artist ac awdur gwahanol yn creu pob cyfrol, ac felly bydd diwyg pob llyfr yn amrywio yn ôl y testun. Fe fydd gwir amrywiaeth yng nghyfraniadau'r unigolion, o artistiaid a beirdd i wyddonwyr ac unigolion ym myd chwaraeon. Dyma'r tri llyfr cyntaf yn y gyfres:

*Cranogwen - Bywyd Arloesol Sarah Jane Rees* (Geiriau: Anni Llŷn. Lluniau: Rhiannon Parnis)

*Gwen - Bywyd Lliwgar Gwen John* (Geiriau: Casia Wiliam. Lluniau: Gwen Millward)

*Shirley - Bywyd Byrlymus Shirley Bassey* (Geiriau: Bethan Gwanas. Lluniau: Hanna Harris)

Meddai Anni Llŷn am ei chyfrol ar fywyd Cranogwen:

*Roedd hi mor arloesol ac yn mynnu dal ati i wneud beth oedd hi eisiau. Ond nid yn unig hynny, gweithiodd i fod y gorau mewn meysydd yr oedd cymdeithas yn dweud na ddylai hi ac na allai hi wneud am ei bod hi'n ferch.*

Ar nos Iau, 21 Hydref, bydd noson gyda Llyfrau Broga gyda changen Merched y Wawr y Felin yn Yr Eglwys Newydd.

Mae'r llyfrau hyn i gyd ar werth am £6.99 yr un ac ar gael yn y siopau llyfrau neu o wefan Gwales (www.gwales.com).

www.broga.cymru

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y Gymdeithas yn ddiweddar a phenderfynwyd cynnal Cyfarfod Cyffredinol i drafod y dyfodol ar BRYNHAWN dydd Llun 18fed o Hydref am 2 o'r gloch yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina.

Bydd Lynn Davies yn rhoi sgwrs i ni: 'Coelion y Colier'

Gofynnir yn garedig i bawb wisgo mwgwd a chodir £3 yn ôl yr arfer, ond ni fydd paned ar gael y tro yma.

Fel Cymdeithas rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu yn ôl, os bydd hynny yn bosib, ac i glywed eich barn.

Bydd croeso i chi gysylltu â Falmai Griffiths trwy e-bost - fal.griff@gmail.com neu ffonio 02920 614056.

## CYMRODORION CAERDYDD

Sefydlwyd 1885

Rhaglen 2021/22

Bydd yr holl gyfarfodydd ar Zoom yn dechrau am 7.30yh

22 Hydref — **Pam a Sut y Dihangodd yr Ysbïwr?**
Cyflwyniad gan y Llywydd, Bill Davies

3 Rhagfyr — *Darlith Goffa'r Athro John Gwynfor Jones*
**'Y bugail sydd wedi mynnu cynnal y cyfarfod nos Fercher yn iaith y Saxon': newid iaith yng nghapeli Caerdydd 1850 - 1914**
Dr Dylan Foster Evans

4 Chwefror — **Dychmygu Iaith**
Yr Athro Mererid Hopwood

11 Mawrth — **Cylch o Hanner Canrif: Meithrin Miliwn**
Dr Gwenllian Lansdown Davies

6 Mai — *Teitl i'w gyhoeddi*
Yr Athro Richard Wyn Jones

Tâl aelodaeth am y flwyddyn £10. I ymuno, neu am ddolen i gyfarfod unigol (£3) cysyllter â Gwynn Matthews, m.g.derwendeg@gmail.com (029 20891802)

# Côr Meibion Tâf

Mae Côr Meibion Tâf wedi ailddechrau ymarfer yn wythnosol ar ôl gwyliau'r haf. Llwyddodd y côr i gynnal ymarferion wyneb yn wyneb cyn yr haf hefyd a dod yn drydydd yn yr Eisteddfod Amgen eleni. Rydym yn ddiolchgar iawn i swyddogion Clwb Rygbi Pentyrch am adael i ni ddefnyddio eu hadnoddau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae croeso i aelodau hen a newydd ymuno â ni yn ein hymarferion yn y dyfodol pan gawn gyfle i atgoffa ein hunain o'r hen ffefrynnau a chael blas ar ddarnau newydd. Cysylltwch â Rhodri Jones 07770 559961 (Cadeirydd) neu Colin Williams 07768 900738 (Ysgrifennydd) os oes diddordeb gyda chi mewn ymuno â'r côr ac ymwelwch â'r wefan https://cormeibiontaf.cymru

Er bod y côr wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r bois wedi gweld eisiau'r ymarferion wythnosol. Hwn yw'r cyfle i sgwrsio a chymdeithasu yn ogystal ag ymarfer y *repertoire* wrth gwrs. Fe benderfynon ni fynd ati felly i geisio dod i adnabod ein gilydd hyd yn oed yn well a hynny trwy holi ac ateb cyfres o gwestiynau difyr ac ysgafn. Fe gawsoch hanes ein cadeirydd, Rhodri Jones, rai misoedd yn ôl. Y mis yma, y mae cyfle i ddod i adnabod Gareth Davies, un o faritoniaid y Côr.

## Gareth Davies



**Beth ddaeth â ti i'r ardal hon (dalgylch y Côr)?**
Cefais fy magu yn Rhuthun a bûm yn ddisgybl yn Ysgol Pen Barras, Rhuthun a wedyn Ysgol Maes Garmon yn yr Wyddgrug. Nes i ddod Gaerdydd i astudio Peirianneg Sifil, ac ar ôl graddio fe ges i swydd yn Nghasgwent. Dw i wedi bod yn byw yn ardal Treganna ers dros ugain mlynedd bellach.

**Beth yw dy atgof cynharaf?**
Mynd efo Dad i Gerrigydrudion bob bore Sadwrn. Roedd Dad yn gyfrifol am dîm pêl-droed y pentre – gosod rhwydi, peintio llinellau ar y cae, gosod y kit a rhedeg y llinell.

**Disgrifia dy hun mewn tri gair.**
Cydwybodol, amyneddgar a chall!

**Beth yw dy hoff le di yng Nghymru / yn y byd?**
Dwi dal i feddwl am Rhuthun fel adre a does dim byd gwell na mynd nôl i Ddyffryn Clwyd! Fy hoff wlad ydy'r Eidal – wedi bod yno lawer gwaith ac yn mwynhau yr amrywiaeth – y mynyddoedd, y llynoedd, y traethau, y dinasoedd, y bwyd ar diodydd!

**Oes gennyt ti unrhyw arferion drwg?**
Gadael dillad budr ar y llawr!

**Beth sydd wir yn dân ar dy groen di?**
"It's coming home"

**Beth am rannu rhywbeth gyda ni nad oes llawer o bobl yn ei wybod?**
Fi gynlluniodd y bont gerdded sy'n codi dros yr Afon Elái yn Mhenarth (Pont y Werin), y bont ffordd newydd dros ardal y dociau ym Mae Caerdydd a'r bont gerdded dros yr Afon Taf yng Ngerddi Soffia – ac ydi mae'r bont honno i fod i fownsio!!

**Pwy yw'r person mwyaf nodedig gwrddest ti erioed?**
Nes i ddim cyfarfod Brian Clough, ond pan yn iau fy nhîm pêl-droed oedd Nottingham Forest. Cyn mynd i'w gweld nhw am y tro cyntaf yn Everton, nes i sgwennu llythyr ato fo. Collodd Forest y gêm ond ges i lythyr nôl gan Brian Clough yn ystod yr wythnos wedyn yn ymddiheuro am golli'r gêm!

**Beth fyddai dy bryd o fwyd delfrydol a gyda phwy fyddet ti'n hoffi rhannu'r pryd hwn?**
Ffan mawr o fwyd Eidaleg a dim byd gwell na neud pizza adre efo'r teulu.

**Pan nad wyt ti'n dysgu *repertoire* y Côr, sut wyt ti'n mwynhau treulio dy amser hamdden?**
Dwi'n mwynhau bod allan – rhedeg, seiclo neu gerdded.

**Yn ystod y cyfnod clo pa raglenni teledu wyt ti wedi mwynhau eu gwylio?**
Wedi mynd trwy ffilms *Marvel* i gyd efo fy merch a sawl cyfres ar Netflix fel *Queens Gambit* ac *All or Nothing*.

**Pa un darn o gerddoriaeth fyddet ti'n ei ddewis i wrando arno ar ynys bellennig?**
Ddim yn siŵr pa mor addas yw i wrando ar ynys bellennig ond dwi wedi tyfu fyny yn gwrando ar fandiau o'r 90au fel Stone Roses, Oasis, a Red Hot Chilli Peppers. Dwi hefyd yn mwynhau gwrando ar fandiau Cymraeg fel y Cyrff a Super Fury Animals.